

Llifogydd Gogledd Ceredigion

Wrth i fwyafrif trigolion gogledd Ceredigion gysgu'n glyd yn eu gwllau rhwng nos Wener ac oriau mân fore Sadwrn yr 8fed a'r 9fed o Fehefin cofnodwyd dros 3 modfedd o law yng ngorsaf fesur Trawscoed – ddwywaith yn fwy na holl law arferol mis Mehefin. Roedd yn agosach at 6 modfedd yn yr uwchdiroedd. Erbyn bore Sadwrn, roedd y dŵr yma wedi cyrraedd sianeli'r afonydd ac roedd tai, ffyrdd a chaeau Aberystwyth a'r cyffiniau oddi tano mewn dim o dro. Gwelwyd y difrod mwyaf yn Nhal-y-bont, ble gwelwyd y

llifogydd gwaethaf o fewn cof mwyafrif trigolion y pentref. Cododd Afon Leri dros bont y pentre, a thrwy'r tai o gwmpas y sgwâr. Wedi i Afon Ceulan erydu darn sylweddol o wal gerrig llanwodd y cerrig hynny'r sianel a gorfodwyd y dŵr i lifo i ardd tafarn y Llew Gwyn a thrwy'r maes parcio gan 'sgubo biniau sbwriel ymaith a chwalu palmentydd a tharmac. Newidwyd y tirlun yn ddramatig wrth i dirilithriadau symud blociau mawr o bridd ac wrth i'r afonydd erydu eu glannau, symud graean a chwalu pontydd troed.

Bron i bythefnos ers y llifogydd mae'r golygfeydd torcalonnus yn parhau wrth i drigolion yr ardal glirio eu tai a gosod eu heiddo a'u dodrefn wrth ochr y ffordd. Mae sôn na fydd modd i rai ddychwelyd i'wcartrefi am fisoedd. Un o'r rhesymau posib am hynny yw'r ansicrwydd ynglyn a'r hyn a oedd yn cael ei gludo gan y dŵr. Mae hanes hir o fwyngloddio yn uwchdiroedd cymoedd Ystwyth, Rheidol, Leri, Ceulan a Clarach. Er bod y gwaith wedi dod i ben yn ystod degawdau cyntaf y ganrif ddiwethaf, mae ei

waddol yn parhau i effeithio ar y tirlun hyd heddiw. Wrth gwrs, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'doedd dim asiantaethau i reoli'r amgylchedd, ac roedd rhwydd hynt i'r cwmnioedd cloddio wneud fel a fynnent. Y drefn oedd defnyddio dŵr er mwyn gwahanu'r mwyn oddi wrth y metel, yna gwaredu'r gwastraff yn syth i mewn i'r afonydd lleol. Mae afonydd yn cludo dyddodion yn gyson wrth gwrs, ac mae afonydd

Parhad a mwy o luniau ar dudalennau 10-11



Glanyrafon

Llun: Iestyn Hughes

Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 351 | Mehefin 2012



SWYDDOGION

GOLYGYDD - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

TEIPYDD - Iona Bailey

CYSODYDD - Dylunio GraffEG ☎ 832980

CADEIRYDD - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

IS-GADEIRYDD - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

YSGRIFENNYDD - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

TRYSORYDD - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX ☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

HYSBYSEBION - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

LLUNIAU - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

TASG Y TINCER - Anwen Pierce

TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

GOHEBYDDION LLEOL

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

Y BORTH
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

BOW STREET
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI
Eirian Hughes, Lluet Fach ☎ 880 335; Elwynna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

DÔL-Y-BONT
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

DOLAU
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

GOGINAN
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

LLANDRE
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

PENRHYN-COCH
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

TREFEURIG
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN
DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **MEDI 6** a **MEDI 7** I'R
GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **MEDI 20**

MEHEFIN 29 Nos Wener Noson Caws, Gwin a Chân yn Eglwys Elerch, Bont-goch gyda Chôr Meibion Dyfi, Plant Ysgol Penrhyn-coch a Phedwarawd Llinynnol Taliesin am 7.30. Mynediad: £6.00

MEHEFIN 29 Nos Wener Gwesty'r Llew Du, Tal-y-bont. Pryd o fwyd ac adloniant gan Tudur Owen am 7.30. Tocynnau £20 gan Fal Jenkins (01970) 832560

MEHEFIN 30 Dydd Sadwrn Cynhelir Parti yn y Parc PATRASA a aildrefnwyd o Fehefin 16. Ras balwns, barbeciwi, adloniant i'r plant, stondin gacennau, tynnu rhaff, raffl droli a bar o 3.00 ymlaen

GORFFENNAF 3 Nos Fawrth Taith gerdded Cangen Bro Ddafydd Plaid Cymru yng Nghwmrheidol d/o Dr Brian Evans (os bydd y tywydd yn ffafriol). Cyfarfod yn y Maes Parcio ger y Ganolfan Ymwelwyr am 6.30.

GORFFENNAF 6 Nos Wener Noson goffi at Apêl Llifogydd Ceredigion yn Neuadd Rhydpennau am 7.00

GORFFENNAF 8 Prynhawn Sul Hwyl Haf yn Neuadd Tal-y-bont a Chae Chwarae yr Ysgol Gynradd. Pnawn o weithgareddau i godi arian i apêl llifogydd Ceredigion. Gêmau i blant mawr a bach, ocsiwn addewidion, stondinau cacennau a chynnyrch cartre, lluniaeth a chwmniaeth. 2.00-5.00

GORFFENNAF 10 Nos Fawrth Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.00

GORFFENNAF 20 Dydd Gwener Ysgolion Sir Ceredigion yn cau.

AWST 4 Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor a'r cylch Ysgrifennydd: Miss Nerys Daniel, Glynrheidol,

Cwmrheidol. Ffon: (01970) 880691 Gweler <http://www.capelbangorshow.co.uk/>

AWST 4-11 Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg

AWST 18 Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch Llywyddion: Mr Mervyn and Mrs Sue Hughes, 47 Ger-y-llan am 2.00 Manylion cyswllt: Ann James, Ysg. 828270 am Raglen

MEDI 4 Dydd Mawrth Ysgolion Sir Ceredigion yn agor

MEDI 11 Dydd Mawrth Cyfarfod blynyddol y Tincer yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30

MEDI 15 Nos Sadwrn Noson o ganu gwlad gyda John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc, Aberystwyth o 8.00-11.30. Tocynnau: £10 ar gael o'r Gwesty. Elw i Apêl Nyrs Ceredigion, Sefydliad Prydeinig y Galon. Aildrefnwyd o fis Mehefin

MEDI 19 Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

MEDI 21-22 Dyddiau Sadwrn a Sul Pencampwriaethau Aredig y Pum Gwlad a Chymru y Morfa mawr, Llan-non. Am fanylion cysyllter â Mags Jones 01239 851 451/ 07813 533917 neu Phyllis Harries 01974 202 308

MEDI 24 Nos Lun Noson yng nghwmni Dr Eurfyl ap Gwilym yn Neuadd Rhydpennau am 7.30. Trefnir gan Plaid Cymru Rhydpennau. Croeso cynnes i ffrindiau ac aelodau o ganghennau eraill.

HYDREF 9 Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas Gymraeg y Borth yn Neuadd y Borth.

Cyhoeddir y *Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Telerau hysbysebu
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mai 2012
 £25 (Rhif 189) Hedydd Cunningham, Tyddyn Pen-Y-Gaer, Llandre
 £15 (Rhif 191) D.England, Pantyglyn, Llandre
 £10 (Rhif 167) Angharad Morgan, 13 Stryd y Bont, Aberystwyth
 Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn
 festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mai 16.
 Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Gog-
 inan, os am fod yn aelod.
 Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler
<http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf>

Cwmni Licris Olsorts

Ydi mae'r cwmni yn dal ar dir y
 byw er fod nifer yr aelodau wedi
 lleihau. Un ddrama sydd gennym
 eleni, sef "Cerdd y Cyffro" drama
 newydd sbon gan Emyr Edwards.
 Buom yn cystadlu yng ngŵyl
 ddrama Y Groeslon ddiwedd mis
 Ebrill ond heb gael llwyddiant.
 Yna dechrau Mai dyma fynd i
 Wyl Ddrama Corwen a chael y

wobr gyntaf. Roedd y perfformiad
 yma yn ragwrandawriad i'r
 gystadleuaeth actio drama fer yn
 yr Eisteddfod Genedlaethol. Buom
 yn llwyddianus i fynd trwodd.
 Byddwn yn rhoi perfformiad yn
 Theatr Fach y Maes amser cinio
 dydd Iau, Awst 9fed am 12:00
 o'r gloch. Os byddwch yn yr
 Eisteddfod dewch i gefnogi.



Fferm Wynt Nant-y-moch

Cyhoeddwyd Hysbysiad Ymgynghori Cymunedol Ychwanegol ar gyfer
 cynnig Fferm Wynt Nant-y-moch. Bydd cyfle i weld arddangosfa
 gyhoeddus yn y mannau canlynol:

- 4 Gorffennaf Dydd Mercher yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor SY23 3LS rhwng 3-8p.m.
- 5 Gorffennaf Dydd Iau yn y Plas, Machynlleth rhwng 3-8 pm
- 6 Gorffennaf Dydd Gwener yn Ystafelloedd William Davies, IBERS, Penrhyn-coch SY23 3EB rhwng 3-8 pm
- 7 Gorffennaf Dydd Sadwrn yn Neuadd Goffa Tal-y-bont SY24 5 HE

Am fwy o fanylion gweler www.ffermwyntnantymoch.com
 01654 702720

Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiochgar y rhoddion
 isod. Croesewir pob cyfraniad boed
 gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Trefeurig	£250
Cyngor Cymdeithas Y Borth	£50
Cyngor Cymdeithas Melindwr	£100
Cyngor Cymdeithas Tirymynach	£300
Cyngor Cymuned Genau'r-glyn	£200

Newid dyddiad

Y dyddiad newydd ar gyfer
 y noson gyda John ac Alun a
 Wil Tân yng Ngwesty Llety
 Parc, Aberystwyth yw 15
 Medi. Cadwch eich tocynnau
 tan y pryd hynny!

20 Mlynedd 'Nôl



Aelodau o Glwb Pêl-droed Bow Street gyda'r tlysau a gyflwynwyd iddynt
 yn ystod y cinio blynyddol; o'r chwith: Paul James, Chris Jones, Aled Davies,
 Dylan Roberts, James Ward, Eurwyn Williams a Richard Edwards.
 Llun: Arvid Parry-Jones (O'r Tincer Mehefin 1992)



YDYCH CHI'N GALLU CANU?

EISIAU BOD YN RHAN O BARTI BECHGYN NEWYDD
 YN YR ARDAL?

*Dewch i ymuno â chriw o ddynion brwdfrydig i ddysgu
 ystod o ganeuon ac alawon adnabyddus,
 a chael llawer iawn o hwyl yn y broses!!!*

*Cynhelir ymarferion bob nos Sul am 7.30yh
 yn Neuadd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd*

AM FWY O FANYLION, CYSYLLTWCH Â:

Elan Jones (Ysgrifenyddes) 07527262276

Neu drwy ebost

meibionmynydd@hotmail.co.uk

CROESO CYNNES I BAWB!

www.meibionmynydd.co.uk

Y Tincer ar dâp - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r
 golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhian Lewis, Glynllifon,
 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB
 (☎ 612 984)

Camera'r Tincer - Cofiwch am gamera digidol y Tincer - mae ar gael i
 unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthg i dynnu llun ar gyfer y papur
 o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i
 cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street
 (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer
 defnyddiwch y camera.

Annwyl Olygydd,
Carwn gywiro un ffaith yn adroddiad ardderchog
Y Tincer ar ganlyniadau etholiadau'r Cyngor Sir yn
rhifyn Mai (t. 10).

Nid oedd y cynnydd ym mhleidlais y Cyng. Paul
Hinge yn gymaint ag a nodwyd. Cododd ei bleidlais
o 434 yn 2008 i 544 yn 2112, ac nid o 434 i 601 fel a
nodwyd yn eich papur.

Yn gywir,
Cyfaill i'r Tincer

Cafwyd enw a chyfeiriad Cyfaill i't Tincer

Mae Cyfaill i'r Tincer yn gywir! Yn ddamweiniol
gadawyd y canlyniadau allan o rifyn Mai - dyma rai
2012 a 2008

CANLYNIADAU
2012

Y BORTH		
Shaun Bailey (Plaid Geidwadol Cymru)		72
James Whitlock Davies (Annibynnol)		292
Ray Quant (Annibynnol)	358	ETHOLWYD

MELINDWR		
Rhodri Davies (Plaid Cymru)	601	ETHOLWYD
Fred Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)		255

TIRYMYNACH		
Paul Hinge (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)	601	ETHOLWYD
Jaci Taylor (Plaid Cymru)		255

TREFEURIG		
Dai Mason (Annibynnol)	422	ETHOLWYD
Dai Suter (Plaid Cymru)		300

2008

Y BORTH		
James Whitlock Davies		333
Ray Quant (Annibynol)	436	ETHOLWYD

MELINDWR		
Rhodri Davies (Plaid Cymru)	489	ETHOLWYD
Fred Williams (Dem. Rhyddfrydol Cymru)		432

TIRYMYNACH		
Paul Hinge (Dem. Rhydd. Cymru)	434	ETHOLWYD
Penry James (Plaid Cymru)		420

TREFEURIG		
Dai Suter (Plaid Cymru)	461	ETHOLWYD
Martin John Squires (Dem. Rhyddfrydol Cymru)		108
Kari Walker		99

O'r Cynulliad - Elin Jones AC

Ers fy ngholofn ddiwethaf, rydym wedi gweld newid yng nghyfansoddiad gwleidyddol arweinyddiaeth y Cyngor Sir yma yng Ngheredigion. Wedi'r etholiadau a gynhaliwyd ar 03 Mai, mae Plaid Cymru wedi ffurfio clymblaid gyda'r grŵp o gynghorwyr annibynnol a'r grŵp 'Llais Annibynnol', ac felly ffurfio Cabinet newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri grŵp gwleidyddol. Dyma'r tro cyntaf i ni gael aelodau o Blaid Cymru yng Nghabinet y Cyngor Sir, a'r tro cyntaf i ni weld y Blaid yn arwain ar y Cyngor Sir. Hoffwn felly longyfarch y Cyng Ellen ap Gwynn a'i chyd-gynghorwyr o grŵp y Blaid ar y datblygiad hwn ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio gyda'r Cynghorwyr Sir - hen a newydd - beth bynnag eu lliwiau gwleidyddol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled yr etholaeth. Fe fynychais ddigwyddiad arbennig a gynhaliwyd yn Aberystwyth gan Lywodraeth Cymru i nodi cwblhau'r llwybr sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir yng Nghymru. Roeddwn hefyd yn bresennol wrth i'r Gweinidog Addysg agor adeilad newydd sefydliad IBERS, Prifysgol Aberystwyth, yng Ngogerddan.

Yn ôl fy arfer, fe fynychais Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen ym Mhontrhydfendigaid ar benwythnos Calan Mai, a gwnes fwynhau safon y cystadlu'n fawr. Hoffwn longyfarch cystadleuwyr lleol ar eu llwyddiannau, a gobeithiaf y byddant hefyd yn cystadlu yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ac Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan.

Yn Llambod, fe fynychais y dathliadau i nodi pen-blwydd cartref Hafan Deg yn 50 oed yn ddiweddar. Roedd hi'n dda gweld cymaint o wynebau cyfarwydd wedi dod ynghyd i nodi'r digwyddiad, ac roeddwn yn falch i gael cwrdd â rhai o drigolion presennol y cartref. Rwy'n gwybod eu bod hwythau, fel yr wyf i a thrigolion y dref, yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth mae'r cartref a'r staff ymroddedig yn ei ddarparu i henoed yr ardal.

Yn olaf, roeddwn yn bresennol yn ail-agoriad swyddogol Neuadd Goffa Tregaron. Rwy'n ymwybodol iawn o'r gwelliannau a'r buddsoddi i wella'r neuadd a'r cyfleusterau yno dros y misoedd diwethaf, ac rwy'n gobeithio y bydd trigolion Tregaron yn falch iawn gyda'r neuadd ar ei newydd gwedd.



Mae'r llifogydd mawr a'r difrod a welwyd mewn cymunedau yng ngogledd Ceredigion yn golygu na fydd nifer ohonom byth yn anghofio mis Mehefin 2012. Ers y trychineb, rwyf wedi ymweld â nifer o'r ardaloedd gafodd eu heffeithio i weld y sefyllfa dros fy hun. Mae'n amlwg y bydd nifer o bobl allan o'u cartrefi am gyfnodau sylweddol, ac rwyf wedi galw ar y cwmnïoedd yswiriant i ddarparu cymorth a phrosesu taliadau cyn gynted â phosib.

Wrth ymweld â'r cartrefi a'r busnesau a effeithiwyd gan y llifogydd, roeddwn hefyd yn falch i weld y cymunedau lleol yn dod at ei gilydd, gyda phobl yn rhoi cymorth i'w cymdogion. Rwyf hefyd wedi talu teyrnged i'r gwasanaethau brys ac achub am ymateb mor effeithiol i'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu.

Fodd bynnag, rhaid i ni edrych i'r dyfodol, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol. Rwyf felly wedi galw ar Asiantaeth yr Amgylchedd i fonitro ein hafonydd i wneud yn siŵr nad oes coed neu silt yn cronni ynddynt ac yn rhwystro'r llif ar adegau pan fydd llawer o ddŵr ynddynt.

Gwnes hefyd fynychu nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir yn ystod y mis. Roeddwn yn falch i dderbyn gwahoddiad i fynychu'r seremoni i urddo Maer newydd tref Llambod, ac rwy'n dymuno'n dda i'r Cyng Kistiah Ramaya wrth iddo gychwyn ar ei dymor.

Fe ymwelais â rali flynyddol y Ffermwyr leuainc, a gynhaliwyd eleni ar fferm Llechwedd, Llanwenog. Eleni eto, roedd yna gystadlu o'r safon uchaf, a hoffwn longyfarch CFFI Tal-y-bont am ddod i'r brig eleni.

Yn olaf, cefais gyfle i ymweld â'r Ganolfan Ddydd newydd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Roedd llawer o wrthwynebiad yn y dref i'r bwriad o adleoli'r gwasanaeth o'r hen adeilad ar Goedlan y Parc i fod gyda'r llyfrgell a'r archif yn Neuadd y Dref. Cyflwynwyd deiseb yn erbyn yr adleoli i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac fe gefais fy ngwahodd i ymuno ag aelodau'r pwyllgor hwnnw wrth iddynt ymweld â'r Ganolfan yn ei lleoliad newydd a chanfod barn y defnyddwyr. Bydd aelodau'r Pwyllgor Deisebau yn awr yn ystyried eu hymateb i'r adleoli yn sgîl yr ymweliad.

Y BORTH

Ysgol Sul St Matthew

Dydd Sul Mai 6ed conffyrmiwyd pedwar o blant yr Ysgol Sul - , Eleanor, Sam, Andrew a Dion - gan Esgob Wyn Evans. Roedd yn wasanaeth hyfryd a chefnogwyd y plant gan deulu, ffrindiau a chynulleidfia. Roeddym mor bles fod ein ficer ni, y Parchg Cecilia Charles wedi gwella o'i hanwylder ac yn ol yn yr eglwys ar gyfer y diwrnod yma.

Rydym mor falch o ymroddiad y plant a'u cefnogaeth ffyddlon i'r eglwys a'r ysgol Sul. Fe'u cynorthwywyd yn eu paratoad ar gyfer y bedydd esgob gan ddau arweinydd ieuencid gwyh o Eglwys Mihangel Sant, Aberystwyth - Hannah a Dan. Fe roesant i'r plant ddealltwriaeth ddyfnach i'r cam oeddynt yn ei gymryd gan eu cynorthwyo i ddeall mwy am y Beibl a bywyd Cristnogol trwy eu ffyddlondeb a'u ffydd, trwy gêmiau a sgysiaau a darlenniadau a thrwy drafodaethau.

Roedd y lluniaeth dan ofal aelodau'r eglwys a'r teuluoedd a hoffem ddiolch i bawb oedd ynghlwm â'r achlysur am ei wneud yn ddiwrnod mor arbennig i'r plant.

Fe gymerodd y merched canlynol o'r ysgol Sul ran yn y Ras am fywyd yn Aberystwyth ar Fai 13eg: Megan, Erin, Hannah, Eleanor, Finlay, Toohey, Anna, Mac, Lili, Eliza, Skye ac Elfie. Cawsant gefnogaeth dda gan fechgyn yr ysgol

Sul, eu teuluoedd a ffrindiau. Mae'r Ysgol Sul yn gobeithio codi mwy na £600

ar gyfer yr elusen arbennig yma. Er fod rhai ohonom yn arafach na'r lleill (tua 45 munud yn hwyrach) cawsom groeso mawr ar y diwedd gan y Trefnwyr, Radio Ceredigion a ffrindiau ffyddlon, teulu a chefnogwyr oess wedi aros mor hir ar y linell. Dathlwyd wedyn gyda bwffe yn y Borth wedi ei drefnu gennym ni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ardderchog.

Pan fydd y gwyliau drosodd ac y byddwn yn ol i normal edrychwn ymlaen i weithio ar ein tri murlun yn ffau yr Ysgol Sul gyda Stuart Williamson-Evans, un o ddau yr Ysgol Sul a gynorthwyodd i gynllunio a gwneud y to Arch Noa. Bydd y byrddau yn darlunio 'Y Geni', 'Y Croeshoeliad' ac 'Esgyniad' yr Iesu. Rydym mor lwcus i gael cymorth ac ysbrydoliaeth cystal artist a Stuart. Nid yw athrawes yr ysgol Sul yn gallu gwneud mwy na dynion prisiau fel y gall y plant ddweud ! Diolch Stuart oddi wrthym i gyd.

Fe gymerwyd Julie Galt o'r Borth, yn sal ynanffodus ar Fai 6ed yn y Gwasanaeth Conffyrmasiwn yn Eglwys St Matthew. Daeth Gerald - Parafeddyg Ymateb Cyflym a thîm Ambiwlans Awyr Cymru ac aed a Julie i Ysbyty Treforus. Mae'n dda gallu dweud ei bod erbyn hyn gartref ac yn gwella. Pod dymuniada da iddi am wellhad buan a llawn.



Andrea Warrington-Westley a Jeffrey Evans a briodwyd ar 28 Ebrill, 2012, yng Nghofrestfa Aberystwyth. Cynhaliwyd y wledd yng Nghlwb Brynrodyn, Y Borth. Treuliwyd y mis mêl yn Nhwrci ac maent wedi cartrefu yn Y Borth.



O'r chwith i'r dde: Dion Ellis-Clark, Andrew Fielding, Esgob Wyn Evans, Sam Trubshaw, Eleanor Williams.



Priodwyd Megan (Ynyswen, y Borth) a Robert o Langynwyd yn Eglwys Sant Matthew ar bnawn Gwener y 25ain o Fai. Roedd y gwasanaeth dan ofal Y Ficer Cecilia Charles a chafwyd anerchiad gan y Parchg Evan Morgan, (Salem, Caerdydd). Hoffai'r teulu ddiolch i lu o ffrindiau a ddaeth i'r eglwys, yn ogystal â diolch i Eurgain Rowlands am chwarae'r organ, Joy Cook am warchod clwyd y rheilffordd ac i Susan James am ganu'r gloch a helpu'n gyffredinol. Roedd y briodferch

fymryn yn hwyr yn cyrraedd gan fod Harry Hosker a Guy Pargeter osod cwinten ar draws y ffordd, ac roedd rhaid i Dad Meg dalu i gael rhyddhau'r rhaff a chyrraedd y seremoni! Wrth adael yr Eglwys chwaraeodd Eurgain 'Clychau Aberdyfi' a 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn', dwy gân werin o ardaloedd y Mr. a Mrs. Evans newydd; yna cafwyd taith fer a chofiadwy i Ynys-las cyn dathlu ar y dec tu fas i Ynyswen yn yr heulwen braf a gafwyd y diwrnod hwnnw. Llun: Sadie Everard

TACSI EDDIE

TACSI AR GYFER POB
ACHLYSUR, A CHAR ADDAS O
SAFON UCHEL I'R ANABL.
BYSUS MINI AR GAEL HEFYD
FFONIWCH:

CONNIE AR 828 642
TINA AR 07790 961 226

eich gwefan leol
www.trefeurig.org

newyddion i
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

BOW STREET

Suliau Gorffennaf - Medi

Garn 10 a 5
www.capelygarn.org

Gorffennaf

- 1 Cynwil Williams
- 8 Oedfa'r ofalaeth
- 15 Bugail
- 22 Rhidian Griffiths Beti Griffiths
- 29 Terry Edwards

Awst

- 5 Yn Noddfa I'w drefnu
- 12 M.J. Morris
- 19 Yn Noddfa I'w drefnu
- 26 Lewis Wyn Daniel

Medi

- 2 Hywel Slaymaker
- 9 Bugail
- 16 Bugail
- 23 Harri Parri
- 30 Goronwy Prys Owen

Noddfa

Awst

- 5 Bore Richard H. Lewis
- 12 Yn y Garn
- 19 Bore Richard H. Lewis
- 26 Yn y Garn

Medi

- 30 2pm Gwasanaeth Diolchgarwch Noddfa:
Y Parchedig D A Lenny.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dai, Auriel, Mark a Ruth ,
Trewylan, ar farwolaeth mam Dai yn ddiweddar -
Ethel Evans, Abermagwr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i deulu Gaerwen. Mae
Dilys Baker-Jones wedi dod yn hen fam-gu yn
ddiweddar. Ganwyd efeilliaid bach - Tomos Hedd
a Dylan Hedd - i Meinir a Sion, Aber-arth. Pob lwc
i'r gwarchod!

Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun Mai y 14eg cawsom ein cyfarfod
blynyddol dan lywyddiaeth Mair Lewis.
Dechreuodd y noson drwy gydymdeimlo â'n
trysoryddes, Beryl, ar golli perthynas a llongyfarch
Elen ar ddod yn fam-gu.
Yna llongyfarchwyd yr aelodau a aeth i'r Wyl Fai
yn Llandysul lle cafodd Brenda Jones y cyntaf am
ei jam, Mair Davies y trydydd am ei spwng a Shân
Hayward y trydydd am ei chât i ffôn symudol.
Diolch iddynt hwy daeth y gangen yn drydydd yn y
rhanbarth.

Yna darllenodd ein hysgrifenyddes, Liz Jones
gofnodion cyfarfod blynyddol 2011 ac fe'i cafwyd
yn gywir.

Ar ôl mynd dros raglen y flwyddyn diolchodd
Mair i'r ysgrifenyddes a'r drysoryddes am eu
gwaith trwyadl ac hefyd i'r pwyllgor.

Yna cyhoeddwyd y swyddogion am y flwydyn
nesaf 2012- 2013:-

- Llywydd – Brenda Jones;
- Is-lywydd – Marian Beech Hughes
- Ysgrifennydd – Joyce Bowen;
- Is-ysgrifennydd – Janet Roberts;
- Trysorydd – Bet Evans;
- Is-drysorydd – Bethan Hartnup

Y pwyllgor – Mair Lewis, Elizabeth Jones, Beryl
Hughes, Meinir Roberts gyda Gaenor Jones yn
aelod newydd.

Yn canlyn cafwyd hwyl yn chwarae BINGO dan
ofal medrus iawn Richard Gethin yna gorffennwyd
gyda phaned wedi ei pharatoi gan Mair a Meinir.
Enillwyr y raffl oedd Ann Jones a Lisa Davies.

Nos Lun Mehefin y 11eg aeth criw ohonom ar fws
i Bontarfynach i ymweld â'r “Caban” i weld Sarah
Bunton yn gwneud ei siocledi hyfryd moethus.
Dysgwyd a rhyfeddwyd llawer!! Yna cafwyd
pryd o fwyd hyfryd wedi ei baratoi gan ei rhieni.
Roedd pawb wedi cael noson wrth eu bodd ac
anghohiwyd am unrhyw ddeiet gyda chyfle i brynu'r
siocled!! Dyna oedd diwedd glo bendigedig i'r
flwyddyn.

Croeso

Croeso i Susan a Simon Herron, Owain a Dylan,
fydd yn symud o Aberhonddu i 37 Bryncastell
ddechrau Gorffennaf. Bydd mam-gu a tad-cu ym
Maes y Garn yn falch iawn o gael y teulu yn nes.

Trefor Lewis

Ganed Trefor ar 17 Mai 1921, yn Bod Gwilym, Pen-
y-garn, yn fab i Alser ac Elizabeth Lewis, ac yn
frawd i Gwilym ac i'r efeilliaid Buddug ac Anna.
Wedi colli Buddug ym 1954 a Gwilym ym 1962 ar
ôl salwch hir, mae'n chwith meddwl mai dim ond
Anna sy'n goroesi. Roedd gwreiddiau Trefor yn
ddwfn yn yr ardal, a theulu'i dad yn weithgar yn y
capel a'r gymuned. Ein cofion at Gwen y gyfnither
gant oed yng Nghartref Tregerddan. Byddai Trefor
yn sôn yn aml am Ann a Tom Hughes, Tŷ Capel
y Garn, rhieni'i fam, a'i fodryb Neli a olynodd y
rhieni i wasanaethu'r capel gyda David Rice ei
phriod. Soniai hefyd am ei fodrybedd Marged
Jenkins a Sally Shakespeare, a'i ewythr William, tad
Gwynfor.

Ag yntau'n mynd a dod at ei fam-gu daflad
carreg o'i gartref bu'r capel a phopeth a ddigwyddai
ynddo'n bwysig iddo gydol ei oes hir ac yntau'n
addoli yno'n ffyddlon ac wrth ei fodd fod Kathleen



Llun: Anthony Pugh

Priodas

Priodwyd Rhian Jones, Penlonlas, Tal-y-
bont (gynt o Bow Street) a Clive Morgan o
Benparcau yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont
ar 2 Mehefin 2012. Cynhaliwyd y wleded yng
Ngwesty'r Marine a threuliwyd y Mis Mêl yn
Nhwrci. Dymuniadau gorau iddynt.

wrth yr organ. Fe'i clywais yn canmol pob
gweinidog o Christmas Lloyd hyd at Wyn Morris,
a chanmol J.T.Rees am roi sglein ar ganu plant
a phobl. Am ei fod yn gyfeillgar gyda'i wyrion
Gwilym a Ceredig roedd Trefor gyda Gwynfor
ei gefnder yn cael chwarae ym Mronceiro a dod
i 'nabod J.T.Rees y tad-cu. Ym 1931 tynnwyd
llun y pedwar cyfaill y tu allan i Fronceiro yn eu
trowsusau byr! ac yn ddiweddarch pan ddeuai
Ceredig o America at Morfudd ei chwaer, roedd
rhaid tynnu llun y pedwar yn yr un drefn – o'r
chwith, Gwilym, Ceredig, Trefor a Gwynfor - hyd
yr olaf ym 2009, 78 mlynedd ar ôl y cyntaf. Am eu
bod yn hoff o chwarae criced roedd bat ym mhob
llun ac ar yr un olaf yr oedd '340 not out '.

Wedi colli Gwilym a Trefor aeth y 'Big Four'
fel y galwent eu hunain yn ddau, roedd Gwynfor





Merched y Wawr Rhydpennau

Buddugwyr Gŵyl Rhanbarth Ceredigion yn Llandysul.

Brenda Jones, cyntaf am wneud Jam, Mair Davies, trydydd am gacen siocled, a cas ffôn symudol wedi ei wneud gan Shan Hayward (a oedd yn absennol am ei bod wedi cael triniaeth ar ei phen-glin, ond mae'n gwella'n dda). Daeth y gangen yn drydydd yn y Rhanbarth.

gyda ni yn yr angladd ac anfonwn ein cofion ar draws y moroedd at Ceredig. Ar ôl gadael Ysgol Rhydpennau aeth Trefor yn brentis masiwn yn 14 oed at adeiladwyr adnabyddus y Dolau a byddai'n cyfeirio at John Edmund Jones y 'bos' a Glyn ei nai yn aml. Byddai'n hoffi enwi'r masiwned a'r seiri a dweud mai dim ond John Gwynfa a Wynford Evans sy'n fyw o blith y criw mawr. Clod i grefftwy'r y Dolau oedd fod adeiladwyr Aberystwyth yn dweud ei bod yn hawdd adnabod eu gwaith. Wedi dyddiau'r Dolau bu Trefor yn gweithio yng Ngogerddan ac yn ofalwr Neuadd Rhydpennau.

Gan i Trefor sôn droeon y dylwn groniclo hanes y Dolau rwy'n gobeithio y gallaf lunio ambell bennod yn deyrnged i gyfraniad nodedig William Jones a'i ddisgynyddion. Wedi iddo godi tai ym Mhenrhyn-coch a Bwstryd roedd yn ymfalchio o gael byw yn y tŷ a gododd yn Nhregerddan ym 1951. Buom yn gymdogion o hynny hyd heddiw ac

rwy'n diolch am y cyfeillion eraill yn y rhes, rhan werthfawr o'r gymdogaerth dda.

Wedi bod gyda phedwar o weithwyr y Dolau yn adeiladu gwersyll Tonfannau ('nhad yno 'run pryd) ymunodd Trefor â'r awyrlu ym 1942 ac yn yr Alban cyfarfu â'i gyfnither Peggy Shakespeare, ac â Mary Mowbray, merch fferm Kirkton, Tealing, bum milltir o Dundee, a'i phriodi ym 1944. Ar ôl geni Kathleen dychwelwyd i Ben-y-garn lle ganed Leslie. Yn ôl i'r Dolau, i'r capel ac i chwarae i dîm pêl-droed y pentref a manylu'n ddiddorol ar aml i sgarmes yn enwedig y gêmâu yn y Borth. Mae'n werth cofio sylw Dei Hughes, Boston, blaenor yn Libanus (Gerlan) a chefnogwr selog ei dîm: 'If you ever played for Borth against Bow Street without committing a single foul, then you are a gentleman!'

Daeth y teulu a chyfeillion i'r Garn brynhawn Llun 11 Mehefin i gynhebrwng Trefor, arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Wyn Rhys Morris yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Richard Lewis, Elwyn Pryse a W.J.Edwards. Alan Wynne Jones oedd wrth yr organ. Wrth ddiolch am Trefor, a Mary - fu farw yn 2005 - cydymeimlwn â Kathleen, Leslie a Sue, Anna, a'i theulu, Meinir, Billie a Moira o'r Alban, a gweddill y perthnasau. W.J.

DIOLCH - Mae Kathleen a Leslie am ddiolch i deulu a chyfeillion am bob cymorth yn eu profedigaeth, i Feddygfa'r Borth, a Chartref Cwmcynfelyn. Diolch hefyd am y cardiau, y galwadau ffôn, y cyfraniadau ariannol, ac i'r gwragedd am baratoi'r te yn y festri.

Digwyddiadau hanesyddol Cymru wedi eu dal ar-lein

Mae ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth sydd yn cofnodi atgofion pobl o wylïo rhai o ddigwyddiadau mwyaf arwyddocaol Cymru ar y teledu rhwng 1950 - 2000, nawr i'w weld ar wefan newydd www.cofarcyfrngau.co.uk Digwyddiadau hanesyddol megis trychineb Aberfan ym 1966, Streic y Glowyr ym 1984 a Choronï'r Frenhines ym



1953 yw rhai o'r digwyddiadau pwysig sydd wedi cael eu dogfennu a'u rhoi ar y wefan. Yn ogystal â chyfweliadau gyda chyfranwyr a ffilmiau, mae'r wefan a elwir Cof a'r Cyfryngau yng Nghymru, hefyd yn cynnwys mapiau, dogfennau a lluniau. Iwan Rhys Morus, Y Lôn Groes, Athro mewn Hanes yn Adran Hanes a Hanes Cymru oedd yn cyfarwyddo'r prosiect.

Profedigaeth

Er i driniaeth ein ffrind Tegwen Pryse yn Ysbyty Treforys fod yn llwyddiannus daeth y newydd trist am ei marwolaeth yn gynnar fore Sul diwethaf. Yr ydym yn cydymdeimo o galon ag Elwyn, Maldwyn a'i deulu yn eu colled ac yn eu sicrhau fod cylch eang o gyfeillion yn meddwl amdanynt. Bydd teyrnged i Tegwen yn ymddangos yn rhifyn Medi.

Llongyfarchiadau

Ein llongyfarchion i Shirley Rowlands, 42 Tregerddan, ar ddathlu'i phen-blwydd yn 70 oed ar 5 Gorffennaf. Diolch iddi am ei holl waith gyda'r henoed a chofion at Ernie a hithau.

Cydymdeimlad

Mewn Cartref Gofal yn yr Amwythig ar 8 Mehefin, bu farw Lewina Howells, gynt o 16 Tregerddan, gweddw Meurig, mam Eleri ac Eifion, a chwaer Phyllis a'r diweddar Elwyn a Hywel. Cydymdeimlwn â nhw a gweddill y perthnasau. Bu'r angladd yn Eglwys Llangorwen ar 16 Mehefin.

Ennill Tlws

Llongyfarchiadau mawr i Nia Cêt Weaver, disgybl yn Ysgol Uwchradd Caereinion, ar ennill Tlws Coffa Ted Breeze Jones yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Dyfarnwyd y wobr i Nia am am y print monocrom gorau yn yr adran ffotograffiaeth, a chyflwynwyd y tlws iddi ar ddydd Llun cyntaf yr Eisteddfod. Mae'n siŵr bod ei nain a'i thaid, sef Bryn a Meinir Roberts, Maesymeillion, Bow Street yn falch iawn o'i llwyddiant. Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

Beryl Cadman

Saith mis ar ôl colli'i phriod Clayton bu farw Beryl

Cynllun Goleuadau Bow Street

Yn sgil gweithio ar y cyd rhwng staff goleuadau stryd Cyngor Sir Ceredigion ac Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru gosodwyd cynllun goleuadau arloesol ar hyd yr A487 drwy Bow Street. Mewn erthygl a gyhoeddwyd yn ddiwedd yn y cylchgrawn cenedlaethol *Lighting* cyfeiriwyd at y cynllun fel yr un "Cyntaf ar gyfer Cymru" ac "o'r safon uchaf"

Mae'r cynllun goleuadau yn cyflawni safonau modern ac fe'i gynlluniwyd i leihau effaith llygredd golau ar yr amgylchedd. Mae'r llusernau'n defnyddio Deudau Golau (L.E.D's) i greu golau gwyn ac o ganlyniad mae'n lleihau'n sylweddol costau rhedeg y cynllun a sicrhau bod y system yn fwy dibynadwy. Yn ogystal mae pob golau yn gostwng 25% rhwng canol nos a sam mewn

ymateb i ostyngiad yn llif traffig yn ystod yr amserau yma. Mantais arall y cynllun yw nad oes bellach angen cynnal archwiliadau rheolaidd yn ystod y nos am fod pob golau yn medru adrodd am unrhyw nam drwy'r rhwydwaith ffôn symudol. Os bydd golau ddim yn gweithio caiff e-bost ei anfon yn uniongyrchol i staff y goleuadau stryd yn eu hysbysu o'r broblem.

... parhad BOW STREET

Cadman, 14 Tregerddan, yng nghartref Plas y Dderwen, Caerfyrddin, fore Sadwrn 16 Mehefin, ar fore angladd ei chymdoges Lewina Howells yn Eglwys Llangorwen. Gyda chilio Trefor Lewis wythnos ynghynt mae colli tri o Gymry Cymraeg Tregerddan, oedd yn rhan o'r gymdogaeth dda yma, yn brofiad chwithig. Roedd Beryl yn falch fod Gwenda a minnau wedi dychwelyd i fod yn gwmni i Clayton a hithau a diolchwn am y seiadau hyfryd yn eu cwmni.

Un o blant Alfred a Jane Williams oedd Beryl, dau yr oedd eu gwreiddiau'n ddwfn yn Bow Street a Phenrhyn-coch, a dychwelsant i fwthyn Gogerddan ac yna i Dregerddan ar ôl bod yn amaethu fferm y Bargoed rhwng Llwynceilyn a Llannarth. Roedd pump o blant ar yr aelwyd a bu farw Mary, Goronwy, Alun a Dewi o flaen Beryl. Roedd y Bargoed yn ymyl Nantgwynfynydd (cartref Nans Morgan, Llandre) a Llwynderw lle 'roedd cefndryd a chyfnitherod Nans yn byw, a Joyce un ohonyn nhw yn ffrind agos i Beryl. Gan fy mod innau o'r un teulu clywais Joyce yn sôn am gerdded gyda'i gilydd i'r Ysgol, yr Ysgol Sul a'r Oedfa, a mynd yn ddiweddarach i ddawnsio ar nos Sadwrn yn Aberaeron a cholli'r bws ambell dro! Daliodd Beryl ati i ddawnsio yn Aberystwyth yng nghwmni Clayton.

Dechreuodd Beryl weithio yn ifanc yn siop ddillad enwog Tom Ellis, Aberystwyth, a daliodd ati wedi priodi. Rwy'n ei chofio yno pan euthum innau i siop ddillad E.T.Lewis / Lampeter House ym 1953. Roedd Beryl yn gymeradwy gan ei chydweithwyr a'r penaethiaid yn y siop a'r un fu'r hanes pan fu am ymron ugain mlynedd yn gweithio i Gwilym a Megan Tudur yn Siop y Pethe. Un fu'n cydweithio gyda hi yno oedd Ivonne Owen, Gaiman, Patagonia, oedd yn galw i'w gweld bob tro y deuai am dro i Gymru.

Daethom ni fel teulu o Daliesin i 3 Tregerddan ar 29 Tachwedd 1951 i dŷ newydd, da a godwyd gan Glyn Jones a chrefftwyr y Dolau, ac ymhen blwyddyn wedi i Clayton a Beryl briodi cartrefodd y ddau yn rhif 14, gefn-gefn i ni. Daeth Helen a Ken i lenwi a llonni'r aelwyd ac ymhen amser gan yr wyresau Siân Eleri a Rhian Angharad, a maes o law cafodd y ddau gwmni'r genhedlaeth nesaf pan aned Alyssa a Ryan.

Yn Adroddiad y Garn am 1971 cafwyd teyrnged hyfryd i Alfred Williams, tad Beryl fu farw ar 4 Medi, ac mae'n werth dyfynnu am ei bod yr un mor addas am Beryl: 'Distaw a bonheddig fel y siaradai ac y crefyddai. Un o ffyddloniaid oedfa bore Sul a thystiodd yn ei ffordd dawel ei hun i'r fendith a gâi. Yr oedd yn awyddus iawn i'w deulu arddel crefydd a hyfryd crybwyll iddo fagu mab i fod yn flaenor. "Efe a brydfertha y rhai llednais ag iachawdwriaeth, ffydd y rhai dilynwch gan ystyried diwedd eu hymarweddiash hwynt" LLEDNAIS – mwyn, bonheddig, gwylaidd, diymhongar".

Bu Beryl yn addoli'n gyson yn y Garn tra medrodd, ac yn Oedfa Cartref Tregerddan a chefnogi popeth ddigwyddai yno ac ym moreau coffi Afallen Deg. Dirywiodd iechyd Beryl a hithau fel ninnau yn ddiolchgar am fawr ofal Clayton ohoni. Byddwn yn parhau i gofio'r ddau fraich ym mraich o gwmpas Tregerddan. Cydymdeimlwn â Helen, Ken a gweddill y teulu a diolchwn am gael cwmni'r un hardd a hawddgar am drigain mlynedd.

Daeth y teulu, cymdogion a chyfeillion i'r Garn i ddiolch am ffydd a llafur Beryl cyn mynd wedyn i'r Amlosgfa. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Wyn Rhys Morris y Bugail ac fe'i cynorthwywyd gan y Parchn. W.J. Edwards a Richard Lewis. Kathleen Lewis oedd wrth yr organ. W.J.

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

Mae y mis yma wedi bod yn un anodd iawn i ardal y Tincer a thu-hwnt. 'Rydym yn meddwl o ddifrif am bawb sydd wedi dioddef oherwydd y llifogydd ac yn gobeithio y bydd y tywydd yn fwy ffafriol am weddill yr haf.

Te Jiwbili

Cafodd pawb yn yr ardal wahoddiad gan Statkraft i ymuno yn y Ganolfan Groeso ar brynhawn Sul Mehefin 3ydd i gael te i ddathlu'r Jiwbili. Er gwaethaf y tywydd cafwyd prynhawn digon dymunol. Diolch i staff Statkraft.

Hwyl wrth farnu

Dymuniadau gorau a rhwydd hynt i Dafydd Morris, Neuadd Parc, a fydd yn beirniadu ceffylau Adran C yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

MADOG

Suliau Gorffennaf - Medi

Madog 2.00

Gorffennaf

- 1 Cynwil Williams
- 8 Oedfa'r ofalaeth
- 15 Bugail
- 22 Rhidian Griffiths
- 29 Terry Edwards

Awst

- 5 I'w drefnu
- 12 M.J. Morris
- 19 I'w drefnu
- 26 Lewis Wyn Daniel

Medi

- 2 Hywel Slaymaker
- 9 Bugail
- 16 Bugail
- 23 Harri Parri
- 30 Goronwy Prys Owen

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Cledan Jones, Tŷ Mawr a Mary a Malcolm Butler a'r teulu, Foelgastell, Sir Gaerfyrddin, ar farwolaeth eu chwaer Gwen yng Nghartref Pennal View, Blaenpennal.

DÔL-Y-BONT

Pen blwydd Hapus

Pen blwydd Hapus i John Cory, Bryngwyn, ar ei ben blwydd yn 60 ganol mis Mehefin.

GOGINAN

Profiad Bythgofiadwy

Cafodd Rhys Bebb, Blaendyffryn gynt wythnos anhygoel yn rhinwedd ei waith mis diwethaf. Fe fu Shân Cothi yn ei gyfweld yn y Ffair Wanwyn, Llanfair-ym-Muallt a ddangoswyd ar y teledu ar y nos Lun ganlynol. Pedwar diwrnod yn ddiweddarach fe deithiodd i Lundain gyda'i gydweithwraig i wneud cyfweliad gyda un o'i



arwyr o'r byd ffilmiau sef Michael Sheen. Mae Michael Sheen wedi bodloni bod yn Llysgennad i "Cadwch Cymru yn Daclus", ond er mai i Eco Ysgolion mae Rhys yn gweithio roeddent eisiau ei brofiad o wneud ffilm o'r anerchiad wnaeth Michael Sheen tra yn derbyn ei swydd newydd. Barn Rhys o'r actor oedd ei fod yn fonheddig iawn a chanddo wir gariad am ei gynefin (Port Talbot) a Chymru.

Ymddeol

Pob lwc i June Baxter, Oakdale, ar ei ymddeoliad o'r gwaith gweinyddu yn y Brifysgol. Gobeithio y bydd hi a Colin yn medru ymlacio ond fe fydd hynny yn anodd gyda'r wyrion.

Croeso

Braf yw croesawu Andy a Mary Rendall i Tŷ Glas. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

Newydd ddyfodiad

Llongyfarchiadau i Aled a Nia, Ystrad, ar enedigaeth eu merch fach Manon Grug, ar Mai 19eg , chwaer i Megan Fflur ac Efanna Mair.

Ysbyty

Yn falch clywed fod Mr Elwyn Jones, Abercwm-dolau, yn teimlo yn well wedi ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cofion

Cofion Cynnes i Mr a Mrs Ieuan a Glenys Griffith, ar ôl bod mewn damwain yn ddiweddar. Hyderwn eich bod yn well wedi'r anffawd, erbyn hyn.

Y Jiwibili

Sefydlwyd pwyllgor i drefnu parti ar Sul Mehefin 3ydd i ddathlu y Jiwibili Diemwnt. Derbyniwyd yn ddiolchgar yr holl fwyd a rhoddion ariannol ar gyfer y te gan ffrindiau yr ardal. 'Roedd yn werth gweld y byrddau a oedd wedi eu haddurno yn hardd ac yn bwrpasol yn Neuadd y pentref yn llawn o ddanteithion. Bu cystadleuaeth tynnu llun i'r ysgol gynradd, a gwneud coron i blant bach y Cylch Meithrin. 'Roedd y plant hefyd mewn gwisgoedd

ffansi, a dewiswyd y gorau gan y Cyngh, Rhodri Davies, tasg eithaf anodd mae'n siwr. Derbyniodd yr enillwyr *rosette* yr un. 'Roedd yna hefyd ddarn arian £5 y Jiwibili i bob plentyn a oedd yn bresennol.

Llawer o ddiolch i'r holl drefnwyr am eu gwaith, cyn, yn ogystal ac ar y diwrnod - prynhawn bythgofiadwy i'r plant mae'n siwr, a mwynhâd llwyr i'r oedolion yn sicr.

Colli aelod arall

Bu Mrs Enid Vaughan, Maesawel, farw yn 80 oed, ar y 16eg o Fai yn Ysbyty Tregaron. Bu yn ysbyty Bron-glais am rai wythnosau cynt, ac ar un adeg 'roedd i weld yn gwella, ond nid felly y bu.

Trist yw meddwl ein bod wedi colli aelod arall o Capel Pen-llwyn, er nad oedd wedi medru rhoi ei phresenoldeb ers sawl blwyddyn bellach. Serch hynny cadwodd ddiddordeb yn holl ddigwyddiadau y pentref.

Cafodd ei gwneud yn flaenores yn y capel ym 1987, a bu, yn y gorffennol yn actores benigamp mewn llawer o ddramâu lleol. 'Roedd ei gwaith llaw hefyd bob amser yn gywain iawn.

Gwariodd ei hoes ym Mhen-llwyn, a phriodi â'r diweddar Mr Glyn Vaughan, Rhiwarthen, a chawsant un ferch Meinir.

Cafodd deyrnged hardd gan y Parchg Ifan Mason Davies a oedd yng ngofal gwasanaeth ei hangladd. Yn bresennol hefyd oedd y Parchg Ddr. J. Tudno Williams, a gymerodd ran.

Rhoddwyd hefyd deyrnged er cof amdani ar y Sul canlynol, gan Mrs Heulwen Lewis.. Darllenwyd yr emyn coffa gan Mrs Mair Jenkins.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Meinir a Glyn, ei merch a mab yng nghyfraith. Hefyd Aled ei hunig wŷr, kannwyll ei llygad, a'r cysylltiadau oll. Cofion annwyl amdani.

Pen blwydd

Dymuniadau hwyr i Angharad Edwards, 2 Pen-llwyn, sydd wedi dathlu ei phen blwydd yn 18 ar Mehefin 11eg. Fel y dywediad, mae wedi dod i oed! Llongyfarchiadau Angharad, a hwyl fawr i'r dyfodol.

Mae Dad-cu yn cyrraedd oed yr addewid ddiwedd y mis. Dymuniadau gorau iddo yntau hefyd.

Cydymdeimlad

Ein cydymdeimlad i chi, Angharad Lewis, Bronllys a'r teulu, ar golli eich ewyrth - Mr Idris Williams, Llangwyrfon.

Sioe Capel Bangor

Dydd Llun Gŵyl y Banc trefnodd Pwyllgor Sioe Capel Bangor ynghyd â'r Llang Brydeinig daith farchogaeth a thaith gerdded o amgylch



Gwelir Rhyddian yn y rhes ganol, y trydydd o'r chwith

Pêldroediwr o Fri

Llongyfarchiadau mawr i Rhyddian Davies, Ceunant, Pen-llwyn, sydd wedi ennill ei ail gap i Gymru (dan 18) yn y gêm yn erbyn Lloegr. (Cymru i Lloegr o!)

Treuliodd y tymor diwethaf yn rheolaidd gyda ail dîm Aberystwyth, a dewiswyd ef chwe gwaith i chwarae i'r tîm cyntaf. Sgoriodd gôl allweddol yn erbyn Lido Afan i aros yng nghynghrair Cymru. Yn ogystal treuliodd wythnos gyda thîm ' Newcastle United' a mwynhau y profiad yn fawr iawn.

Hwyl fawr iti Rhyddian i'r dyfodol, byddwn yn dilyn unrhyw lwyddiant yn fanwl o 'nawr ymlaen. Pob lwc oddi wrth yr ardal.

Bancydarren. Bu 64 o geffylau a thros 40 o gerddwyr yn mwynhau y golygfeydd godidog ar ddiwrnod braf iawn. Gorffennwyd y noson gyda dawns yn ysgubor Tom a Martina Price ym Mancydarren. Llwyddwyd i godi dros £1,500 a fydd yn cael ei rannu rhwng y ddau achos yma.

TREFEURIG

Derbyn i'r Orsedd

Llongyfarchiadau i Linda Griffiths, Maes Meurig, fydd yn cael ei hurddo i'r Orsedd (Gwisg werdd) yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Bydd Daniel hefyd yn derbyn y wisg wen fel enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen 2011.

A bydd un a anwyd ym Mhenrhyn-coch - y chwaraewr rygbi Stephen Jones - yn cael ei urddo (Gwisg las).

Sioe Trefeurig

Ni fydd Sioe yn Nhrefeurig eleni gan na fu modd cael gwirfoddolwyr ar y Pwyllgor. Os oes rhywun â diddordeb i gynorthwyo ar gyfer Sioe y flwyddyn nesaf cysylltwch â Felicity Wills (01970) 828677



Llifogydd Gogledd Ceredigion

gogledd Ceredigion wedi cludo'r gwastraff mwynloddio yma fel rhan o'u llwyth dyddodol fyth ers i'r gwaith mwynloddio gychwyn. Wrth i'r afonydd barhau i ffurfio eu gorlifdiroedd ac wrth i un llif ar ôl y llall wasgaru haenau o ddyddodion ar ben ei gilydd, daeth y dyddodion llygredig yma yn rhan o'r gorlifdiroedd. Storiwyd y dyddodion yn y gorlifdiroedd hynny ar hyd y blynnyddoedd, ac mae sawl astudiaeth gan aelodau o staff Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth wedi dangos bod lefelau llygredd ar mewn rhai mannau yn uchel. Yr hyn sy'n achos pryder yn dilyn y llifogydd diweddar yw ei bod yn bosib iawn bod y llif uchel wedi achosi i'r afonydd erydu eu glannau, ac aildosbarthu'r dyddodion llygredig ar wyneb y tir yn is lawr y cymoedd. Wrth gwrs, mae hyn yn achos pryder i ffermwyr yn bennaf oherwydd ei bod yn bosib i'r mwynau ddod yn rhan o'r gadwyn fwyd. Yn ystod yr wythnosau ers y llifogydd mae cydweithwyr imi wedi casglu dyddodion o'r cymoedd yma er mwyn cynnal profion i weld a oes sail i'r pryderon ai peidio. Gyda lwc, daw'r canlyniadau ymhen y mis. Yn y cyfamser, mae hi'n dal i lawio'n drwm yng ngogledd Ceredigion.

Hywel Griffiths

Mae Hywel yn ddarlithydd daearyddiaeth ffisegol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gellir darllen ei erthygl Geomorffoleg afonol Cymru: heddiw, ddoe ac yfory yn *Gwerddon* <http://www.gwerddon.org/content/uploads/Gwerddon3/GeomorffolegAfonolCymru.pdf>



Glanyrafon

Llun: Iestyn Hughes



Penrhyn-coch



Y Borth

Llun: Iestyn Hughes



Capel Bangor



Y groesffordd i Gwmsymlog a Chwmerfin



Darren Villa, Trefeurig



Glanyrafon



Llun: Iestyn Hughes

Llun: Iestyn Hughes

YR YSBRYD CYMUNEDOL YN LLANDRE ER GWAETHA DIFROD Y LLIFOGYDD

Yn sgîl y sylw mawr ar y cyfryngau mae'r byd yn gwybod am y difrod a wnaed i gymunedau gogledd Ceredigion gan lifogydd brawychus ar ddechrau mis Mehefin.

Daeth trigolion Dol-y-bont, Llandre a'r Dolau i Fethlehem, Llandre, ar nos Iau 21 Mehefin er mwyn cefnogi y rhai hynny yn y gymdogaeth a wynebodd golledion yn sgîl y llif.

Trefnwyd y noson ar frys a llwyddwyd i godi £1,500 tuag at Apêl Llifogydd Ceredigion sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion. Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn a fu'n gyfrifol am gydlynw'r trefniadau ar gyfer y noson a chafwyd cefnogaeth nifer o unigolion a mudiadau lleol megis Merched y Wawr a Sefydliad y Merched er mwyn darparu lluniaeth a stondin gacennau. Sefydlwyd Banc Bro yn y gymuned yn sgîl yr ymgyrch lwyddiannus i godi arian i Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 gyda'r bwriad o hybu a datblygu'r iaith a'r diwylliant drwy gynnal gweithgareddau cymunedol.

Cafwyd sylw eang i'r digwyddiad ar y cyfryngau ac daeth gohebwyr o BBC Radio Cymru a newyddion ITV Wales yno i adrodd o'r noson.

Llun: Iestyn Hughes

PENRHYN-COCH

Suliau Gorffennaf - Medi

Horeb
Gweler <http://www.trefeurig.org/>

Gorffennaf

1 2.30 Oedfa gymun: Gweinidog
8 10.30 Oedfa deuluol: Gweinidog
15 2.30 Oedfa bregethu: Gweinidog
22 10.30 Oedfa bregethu: Gweinidog
29 10.30 Oedfa bregethu: Gweinidog

Awst - ymuno ag eglwysi y dref 10.00 a 6.00

5 Bethel D. Ben Rees
12 Morfa Eifion Roberts
19 Seion Jim Clarke
26 Bethel 10.00 Rhys Llwyd Thomas 6.00 Y Parchg Peter

Medi

2 2.30 Oedfa gymun: Gweinidog
9 10.30 Oedfa deuluol: Gweinidog
16 2.30 Oedfa bregethu: Steffan Jones
23 10.30 Oedfa bregethu: Gweinidog
30 10.00 Oedfa Gomisiynu Eleri Pierce Jones ym Methel, Stryd y Popty, Aberystwyth

Salem, Coedgruffydd

Gorffennaf

8 2pm Y Parchedig Richard H Lewis, Cymundeb
29 3.30pm Y Parchedig Richard H Lewis

Medi

2 2 pm Y Parchedig Richard H Lewis, Cymundeb
30 2pm Gwasanaeth Diolchgarwch Noddfa: Y Parchedig D A Lenny.

Medi

2 2pm Y Parchedig Richard H Lewis, Cymundeb
30 2pmNoddfa, Y Parchedig D A Lenny, Diolchgarwch

Eglwys St Ioan Penrhyn-coch

Te Hufen a Mefus blynyddol dydd Sadwrn 14 Gorffennaf rhwng 3-5

Cwis a Cawl nôs Wener 5 Hydref

Noson Sosial gyda gwin twym a mins peis ar Sadwrn 1 Rhagfyr rhwng 5-7yh.

Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Mehefin, 11 a 25 Gorffennaf, 8 a 22 Awst a 12 a 26 Medi . Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Sara Evans, Refail Fach gynt, ar gael ei phenodi yn ddirpwy bennaeth Ysgol Gymraeg Castell-nedd.

Pob lwc

Pob lwc i Lynne Hughes, Ger-y-llan / Caerdydd fydd yn mynd allan i Kuwait i weithio dros wyliau yr haf yn rhinwedd ei swydd fel athrawes ddawns.

Darpar Lywydd

Llongyfarchiadau i'r Parchg Wyn Rh. Morris, Berwynfa, ar gael ei ethol yn Ddarpar Lywydd Cymdeithasfa'r De, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru.

PATRASA

Bu Pwyllgor PATRASA yn brysur yn ystod y flwyddyn - ehangwyd yr ardal sglefyrrddio/beicio gyda ffens a tharmac newydd. Bu iddynt wella y parc bach gyda siglenni newydd, si-so a bwrdd picnic plant newydd. Codwyd ffens newydd o amgylch y sleid a'r sticl er mwyn hwyluso'r plant i fynd ar y sleid. Peinitwyd yr offer chwarae yn rheolaidd a chodwyd goliau newydd ar gyfer plant cynradd. Codwyd arwyddion newydd PATRASA ar y gataiau a rhai yn gofyn i bobl glirio ar ôl eu cŵn. Adnewyddwyd a thrwsiodd rhan o ffens y cwrs tenis ac mae rhan arall i'w wneud eleni. Prynydd peiriant torri gwair newydd. Cynhaliwyd Parti yn y Parc dydd Sadwrn 16 Mehefin. Os am gynorthwyo y Pwyllgor cysylltwch â Colin (820910), Gwenan (828486) neu Glenys (828645).

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwyneira Marshall a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer yng

ngyfraith, Lewina Howells, mewn Cartref Gofal yn yr Amwythig - gynt o 16 Tregerddan, Bow Street.

Urdd Gwagedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Bu taith flynyddol y gwagedd, gyda ffrindiau eraill, dydd Sadwrn 19eg Mai, i ogledd Sir Benfro gydag ymweliad â Chastell Henlllys, sef bryngaer Oes Haearn. Cawsom ein tywys o amgylch y sefydliad a dysgom hanes sut oedd y bobl gynnar yn byw yn hollol hunan gynhaliol yno. Yna ymlaen ar daith i Drefdraeth am damaid o ginio yn y 'Golden Lion', ac ychydig o amser i grwydro o amgylch.

Ein hymweliad nesaf oedd Eglwys Nanhyfer, yn anffodus nid oedd modd cael mynediad i'r eglwys ei hun gan fod yno briodas yn digwydd ar y pryd, ond 'roedd modd cerdded oddi amgylch y fynwent a gweld y Groes Geltaidd yn dyddio o'r 10fed ganrif neu ddechrau'r 11eg ganrif, yn ogystal â gweld yr ywen gyda'i sug tebyg i waed yn llifio oddi arni. Bu rhai yn ddigon dewr i gerdded ychydig o lwybr y mynachod a gweld croes y pererinion wedi ei churfio yn y graig.

Penllanw'r prynhawn oedd cael cwrdd unwaith eto efo John a Catherine Livingstone a ddaeth i'n cwrdd yn Nanhyfer a chael cwpaned o de yn eu cwmni. Diolchwyd i Dwynwen Bellsey a Mair Jenkins am yr holl drefniadau, cafwyd diwrnod penigamp.

Tri Chynnig i Gymro Rali Sol Barbados

Dechrau Mehefin bu Gari Thomas, gyrrwr o Fachynlleth, a Philip Ralphs, cyd yrrwr o Benrhyn-coch, yn cymryd rhan yn y rali flynyddol ym Marbados. Mae yna 4, 644 o filltiroedd o faes awyr Gatwick i'r ynys yn y Caribi. 'Roedd tri deg o griwiau o Ewrop yn cystadlu yno



Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Debbie Stone, Dolwen, sydd wedi derbyn yr MBE am ei gwasanaeth arbenigol i Osteoporosis.

ond nhw oedd yr unig griw o Gymru, gyda dros dair mil wedi mynd i wylïo'r rali o bob rhan o'r byd. Gyda 102 o geir yn dechrau, dim ond 51 wnaeth orffen, daeth Gari a Philip yn gyntaf yn eu dosbarth yn 'y sprint' ar y penwythnos gyntaf, ac yn gyntaf eto yn eu dosbarth yn y rali 'Clubman Historic' ar yr ail benwythnos, gan orffen yn 23ain allan o 102 o geir a ddechreuodd y ras. Yn 2005 fe ddaethant yn ail yn eu dosbarth, ac yna yn 2010 buont yn anlwcus gyda'r car yn torri lawr, ond eleni cafwyd buddugoliaeth, a chwifio'r Ddraig Goch ym Marbados.

Gwefan <http://www.trefeurig.org/>

Efallai fod y rhai craff yn eich plith wedi sylwi fod y wefan yn edrych ychydig yn wahanol yn ddiweddar. Yn un peth, mae'r lliwiau wedi newid! Dyma rai o'r newidiadau eraill:

BUSNES: Ymgais i restru unrhyw fusnes sydd ar gael yn y plwyf. Rwy'n siwr fod na nifer o rai eraill. Cysylltwch os ydych chi'n gwerthu rhywbeth neu'n cynnig unrhyw fath o wasanaeth. Dyma gyfle i chi hysbysebu i'r Byd cyfan AM DDIM.

FFILM A SAIN: Yma cewch weld ffilmiau byr lleol ar YouTube. Os hoffech glywed Linda Griffiths yn canu 'Tân yn Llŷn', Nigel Humphreys, y bardd, yn adrodd rhai

o'i gerddi, neu weld darnau o'r ffilm *sleep furiously* unwaith eto dyma'r lle i fynd.

TREFEURIG DDOE: Linc sydyn i'r 'deunydd diweddaraf' ar hanes y plwyf. Ar hyn o bryd: llythyr at Elfed Davies, Salem gynt o'r 'Trefeurig Welcome Home Committee 6 Medi 1946'.

FACEBOOK: Mae tudalen gan 'Trefeurig' ar Facebook. Cliciwch ar y linc. Beth am fod yn ffrind i Drefeurig?

TRYDAR: Mae Trefeurig nawr yn trydar. Pam Trefeurig8? Wel roedd rhywun eisoes yn defnyddio 'Trefeurig' felly ychwanegwyd 8 oherwydd bod y plwyf yn cynnwys 8 pentre/cymuned! Mae hyn yn gyfle i chi gael gwybod yn syth am unrhyw newyddion o'r plwyf. Dilynwch Trefeurig8 am y newyddion diweddaraf.

DYDDIADUR: Os hoffech hysbyseb AM DDIM ar gyfer unrhyw ddigwyddiad rhwch wybod.

AWDURON AC ARTISTIAID: Rhestr o weithiau 45 o awduron ac artistiaid eraill sy'n gysylltiedig â Threfeurig. Rhwch wybod os oes 'awdur / artist' yn byw drws nesaf i chi.

HANES: Cynhaliwyd arddangosfa ar hanes Horeb ar ddechrau'r flwyddyn. Mae nifer o eitemau eisoes ar y wefan a rhagor i ddod.

Linc i wefannau eraill gan gynnwys y Clwb Pêl-droed a'r Ysgol Gynradd a blog difyr 'O'r Parsel Canol'.

Eich gwefan chi yw hon felly os gwyddoch am unrhyw ddigwyddiad, neu eitem o newyddion, os oes gennych hen lun yr hoffech ei weld ar y wefan, neu os ydych am wneud unrhyw awgrym / sylw arall cysylltwch â: golygydd@trefeurig.org

Biniau

Bydd y biniau yn dychwelyd i'r Neuadd ar ôl i'r estyniad gael ei orffen, a'r tar wedi cael ei roi lawr yn y Maes parcio - tua canol i ddiwedd Mis Awst. Fe dderbyn

Pwyllgor y Neuadd £150 y flwyddyn o'r bin dillad ac esgidiau, mae'r ddau fin yma, wedi cael eu hail leoli ym Maes Parcio y Clwb Pêl-droed dros dro. Byddant yn dychwelyd i Faes Parcio y Neuadd wedyn.

Sioe Penrhyn-Coch 2012

Sioe Arddwriaethol Penrhyncoch – Dydd Sadwrn 18 o Awst 2012
Llywyddion y Sioe 2012 – Mr & Mrs Mervyn a Sue Hughes, 47 Ger-y-llan, Penrhyn-coch.
Sioe ar agor i'r Cyhoedd am 2 o'r gloch.

Os hoffech gystadlu cysylltwch a Ann James Ysgrifenyddes Sioe Penrhyncoch- (01970 828270 am Raglen y Sioe 2012

Croeso

Croeso i Rhun a Lowri Emlyn sydd wedi symud yn ystod y mis o Bow Street i 3 Dôl Helyg. Daw Rhun o Langernyw, ger Llanrwst ac mae yn ddarlithydd cyfrwng Cymraeg yn darlithio mewn Hanes a Hanes Cymru. Un o Ferthyr yw Lowri sydd ar staff Adran y Gyfraith Prifysgol Aberystwyth.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Dick a Gwen Davies, Ger-y-llan, ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd Megan yn Ysbyty Bron-glais ar 22 Mai - i Sian & Sean, Yr Hen Waith Dŵr, Bont-goch; chwaer fach i Anna Jên.
Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Steffan, Llanilar - ein beirniad llefaru eleni ar enedigaeth mab - Dafydd Huw - fore Sadwrn 26 Mai.
Llongyfarchiadau i Peter a Samantha, 7 Dôl Helyg, ar enedigaeth mab - Efan.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £1,032.39 – mae hyn yn



Adeiladu Neuadd y Penrhyn - o'r chwith i'r dde - David Jenkins. Maesaleg, John Davies, Bryn Tirion, D.J. Evans, y Bwthyn ac Elfed Davies, Salem. Diolch i Brian, mab Elfed Davies, am yrru y llun.

cynnwys £133.50 a godwyd mewn dau o foreau coffi yn y gymuned a drefnir dwywaith y mis gan Eglwys Sant Ioan Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a fu'n casglu yn y pentref er sicrhau fod casgliad yn digwydd yn y pentref eleni eto. Y casglwyr eleni oedd Gabi a John Coulter-Brown, Glyn Collins, Alwen Fanning, Ceris Gruffudd, Mervyn Hughes, Glenys Morgan, y Parchg Judith Morris, Wendy Reynolds, Wendy Roberts, Elenid Thomas, Mairwen Jones, Ceri Williams a Sandra Beechey.

Llenor Ifanc

Llongyfarchiadau i Rhian Wynne, Cysgod y Coed, ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am ysgrifennu stori fer o dan 25 oed a derbyn tystysgrif a medal.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Brian a Gwyneira Marshall, i

Brogerddan, ar golli chwaer yng nghyfraith, sef Lewina Howells, Bow Street gynt.

Hefyd â Hugh Jones a'r teulu, Panteg, ar golli perthynas yn ddiweddar, sef Gwen Jones, Tymawr, Capel Madog.

Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Daniel Huws, Tyddyn Seilo, ar achlysur ei ben blwydd arbennig ar 28 Mehefin.

Gwellhad buan

Gwellhad buan i Connie Evans, Gwawrfryn, Gwyneira Evans, Yr Efail a Doreen Sedgewick, Y Fron, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella i gyd.

Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 10fed o Fai fe adawodd y bws y neuadd am 6 o'r gloch a phawb yn edrych ymlaen am syrpreis. Ymhen tua hanner awr fe gyraeddasom Melin Ddŵr y Felin Gamol yn Llanrhystud. Cawsom groeso cynnes iawn gan Andrew ac Anne Parry, a fu yn byw ym Mhenrhyn-coch. Roedd y Felin yn rhan o stad Moelifor ac yn dyddio yn ôl i'r 16eg ganrif. Dŵr o'r afon Wyre sydd yn gweithio'r felin.

Fe gychwynnodd y gwaith adnewyddu'r felin yn 2006, ac mae erbyn hyn yn medru cynhyrchu



Derfel Reynolds fu'n dangos y Ffagl a sôn am y profiad o'i chario mewn oedfa yn Horeb yn ddiweddar.

parhad ... PENRHYN-COCH



Ferched Penrhyn-coch, dewch i ymuno. Fel y gwelwch mae yn werth dod atom i gael dod yn rhan o'n gweithgareddau. Unwaith y mis rydym yn cwrdd.

Ein swyddogion y tymor nesaf yw'r canlynol:

Llywydd: Mair Evans; Ysgrifennydd: Sharon Jones; Trysorydd: Elsie Morgan;
Cofnodion: Mairwen Jones.

Grant i Gylch Meithrin Trefeurig

blawd. Mae peth o'r grawn maent yn defnyddio yn cael eu tyfu gan IBERS ym Mhenrhyn-coch. Mae'r blawd yn cael eu gwerthu o'r felin ac ar draws Ceredigion. Fe fu llawer ar ôl prynu'r blawd ar y noson. Cafwyd swper blasus iawn i ddilyn yn y Llew Du yn Llanrhystud.

Llongyfarchiadau mawr i Glenys Morgan am ennill ar drefnu blodau yn Ffair Haf MyW yn Llamed. Bydd Glenys yn awr yn mynd ymlaen i Sioe Llanellwedd yn rhan o dîm MyW Rhanbarth Ceredigion. Pob lwc iddynt oll.

Dydd Sadwrn 19eg o Fai aeth criw o Ferched y Wawr Penrhyn-coch i Wyl Haf ym Machynlleth. Yn ystod y bore cafodd Mairwen Jones ei gwobrwyo am un o'r rhai oedd wedi ennill o wneud pennill gogyfer â charden Nadolig Merched y Wawr. Llongyfarchiadau cynnes iddi am ei champ. Yna yn y prynhawn cymerodd parti llefaru o'n cangen ran mewn cystadleuaeth frwd iawn ac fe ddaethant ar y brig. Llongyfarchiadau mawr iddynt a diolch yn fawr iawn i'n Llywydd, Judith Morris, am ein hyfforddi. Ar y cyfan, diwrnod gwyh i gangen Penrhyn-coch ac yn falch o fod yn rhan o Ferched y Wawr Rhanbarth Ceredigion. Diwedd da i'r tymor.

Edrychwn ymlaen yn awr i ail-gychwyn ym mis Medi. Chi

Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Trefeurig sydd wedi cael grant o £160K gan Gronfa y Loteri. Bwriedir codi adeilad newydd drws nesaf i Ysgol Penrhyn-coch. Bydd yn agor y flwyddyn nesaf, yn cynnig brecwast dyddiol, clwb ar ôl ysgol ac yn gofalu am blant rhwng 2 ac 11 oed. "Newyddion da ar ôl y llifogydd wythnos diwethaf. Heb Grant y Loteri ni fyddai hyn wedi digwydd", medd Delyth James. Mae'r Grŵp eisoes wedi codi £20K tuag at y Prosiect.



Gardd y Cymuned yn Penrhyn. Fel y gwelwch yn y llun yn dangos ysblander y blodau ac yn le i bawddod i eistedd yn nhawelwch yr ardd. Diolch i bob un sydd wrthi yn gyson yn ei chadw mewn trefn.

Cyngor Cymuned Trefeurig

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol a chyfarfod misol arferol Cyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig nos Fawrth 15 Mai. Cychwynnwyd y cyfarfod gyda Chadeirydd 2011/12, Dafydd Sheppard, yn y gadair, ac roedd wyth arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cyngorydd Sir newydd, Dai Mason; derbyniwyd ymddiheuriadau gan Edwina Davies a Dai Rees Morgan.

Roedd cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 2011 wedi'u cadarnhau ym Mehefin 2011. Yn ei araith wrth ymadael â'r gadair, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Nododd rai o'r prif faterion y bu'r Cyngor yn ymwneud â hwy yn ystod y flwyddyn: yr ymdrech i gadw Ysgol Trefeurig fel adeilad ar gyfer defnydd y gymuned; y ddadl am y fferm wynt arfaethedig yn Nant y Moch; ymateb y Cyngor i gynigion y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer yr ardal, a'r problemau cyson ynglŷn â chynnal a chadw ffyrdd yr ardal.

Etholwyd yr Is-Gadeirydd, Edwina Davies, yn Gadeirydd ar gyfer 2012/13, ac etholwyd Tegwyn Lewis yn Is-Gadeirydd. Yn absenoldeb y Cadeirydd newydd, cymerwyd y gadair gan Tegwyn Lewis. Diolchodd yn gynnes i Dafydd Sheppard am ei waith yn ystod y flwyddyn a aethai heibio. Etholwyd y canlynol yn gynrychiolwyr y Cyngor ar wahanol bwyllgorau a sefydliadau ar gyfer 2012/13: Neuadd y Penrhyn a PATRASA – Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont a Chymdeithas Hen Ysgol Trefeurig – Trefor Davies; Cartref Tregerddan – Dai Rees Morgan a Gwenan Price; Un Llais Cymru – Edwina Davies a Tegwyn Lewis; pwyllgor y Fferm Wynt a Gohebydd y Wasg – Richard Owen; Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch – Gwenan Price. Cyflwynwyd y datganiad cyllidol a'r cyfrif derbyniadau a thaliadau am 2011/12 a chymeradwywyd ef. Yn y cyfarfod arferol eglurwyd mai chwech yn unig oedd wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer bod yn aelodau o'r Cyngor

pan gaeodd yr enwebiadau ym mis Ebrill, sef Edwina Davies, Daniel Jones, Trefor Davies, Tegwyn Lewis, Dai Rees Morgan a Richard Owen. Fodd bynnag, roedd Gwenan Price a Melvyn Evans hefyd wedi bwriadu rhoi eu henwau ymlaen ond heb gael y papurau enwebu mewn pryd; felly penderfynwyd cyfethol y ddau i'r Cyngor am dymor arall. Golygai hynny fod tri lle gwag a phenderfynwyd dod ag enwau i'r cyfarfod nesaf ym mis Mehefin. Diolchwyd i Dafydd Sheppard, Mervyn Hughes a Kari Walker am eu gwasanaeth i'r Cyngor a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol.

Penderfynwyd hefyd y dylid anfon llythyr i ddiolch i'r cyn-Cyngorydd Sir Dai Suter am ei gydweithrediad gyda'r Cyngor Cymuned dros yr wyth mlynedd diwethaf ac am ei waith caled dros yr ardal yn ystod ei gyfnod fel Cyngorydd. Llongyfarchwyd y Cyngorydd Sir newydd, Dai Mason, ar ei etholiad, ac roedd y Cyngor yn edrych ymlaen at gydweithio ag ef. Eglurodd ef fod Cyngorydd Sir Llansantffraid, Dafydd Edwards, ac yntau wedi penderfynu ffurfio grŵp o'r enw Llais Annibynnol yng Nghyngor Ceredigion, a'u bod, ynghyd â'r un aelod Llafur, wedi clymbleidio gyda grŵp Plaid Cymru. Wedi hynny penderfynodd y grŵp Annibynnol hefyd ymuno â'r Glymblaid oedd yn awr yn rheoli'r Cyngor o dan arweiniad y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Ceulanamaesmawr.

Nodwyd fod cwyn wedi'i derbyn fod bysiau Arriva yn gyrru'n gyflym iawn drwy Penrhyn ar adegau, yn enwedig y rhai gyda'r nos. Penderfynwyd ysgrifennu at y cwmni i dynnu eu sylw at hyn. Cytunwyd i gynyddu oriau'r Clerc o 6.5 awr yr wythnos i 8.5 awr yr wythnos.

Ôl-nodyn: yng nghyfarfod y Cyngor ym Mehefin cyfetholwyd y canlynol yn aelodau o'r Cyngor; Eirian Reynolds a Siân James, Penrhyn-coch a Geoff Pyle, Pen-bont Rhydybeddau.



**JONATHAN
JAMES LEWIS**

Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260

Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

RHODRI JONES

**Brici a chontractiwr
adeiladu**

07815 121 238

**Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street**

COLOFN MRS JONES

Mi rydw i wedi bod yn meddwl llawer yr wythnos hon am y tywydd, fel pawb arall yn y pentref, mae'n siwr genni, yn enwedig y rhai a ddioddefodd yn ystod y llifogydd diweddar. Nid wyf yn meddwl i mi brofi haf cynddrwg erioed, glaw ac oerni a hyd yn oed gesair a dim argoel am ddiwedd iddo.Y mae cefnder i mi yn beio'r Saeson am gwyno ei bod hi'n sychdwr arnynt ond eithafolrwydd yw hyn. Mae'n wir fod ganddynt angen glaw ond yr oeddynt angen tywydd braf i'r Jiwibili a mae arnynt ei angen ar gyfer y gêmâu Olympaidd a Wimbledon....

Ac fe arweiniodd hyn fi at ystyriaeth arall.Y mae pawb yn edrych ymlaen at y gêmâu, yn ôl y cyfryngau.Ond ydi pawb? Nid fi ydi'r unig un sydd yn casâu'r syniad, hyd yn oed, fe wn i am ddigon nad oes ganddynt bwt o ddiddordeb ynddynt. Mi wn hefyd am rai sydd â diddordeb ddigon cryf mewn sports ond sydd yn erbyn y gêmâu am eu bod yn teimlo eu bod yn wastraff amser mewn cyfnod pan yw arian yn brin. Rwan, ni fyddai cymaint a hynny o ots genni am gynnal y gêmâu oni bai am un peth.Y mae'r BBC yn mynd i roi ei holl oriau darlledu i'w dangos a hynny mewn cyfnod sydd newydd weld criced ac Euro 2012 yn gormesu ein sgrinau. Mae'n briodol fod y gêmâu ar y

teledu, wrth reswm, ond trwy'r dydd bob dydd ar draul pob peth arall? A yw'r BBC yn mynd i roi ad -daliad trwydded i mi a phobl fel fi am yr wythnosau lawer a heibio heb ddim inni i'w weld?

A dyna'r cwmnïau sydd yn noddï wedyn. Sut mae cwmni yn medru dadlau bod angen codi pris rhywbeth fel insiwrans neu ynni oherwydd chwyddiant a wedyn gwario yn noddï tîm nofio neu redeg? Ydi, mae o yn hysbysebu gweddol rad hyd oni gofiwch chi mai ni sydd yn talu. A'n bod ni yn talu ddwywaith achos mae llawer o'n trethi ni wedi mynd ar y jambori fabolgampaidd, hynny yw, mi ryden ni wedi talu am rywbeth y mae'r bobl gyffredin sydd eisïau mynd iddo yn ei gweld hi'n amhosibl cael tocynnau ar ei gyfer. A mi ryden ni yn talu am y fraint od yma bob tro yden ni yn prynu gan gwmni sydd yn noddï'r gêmâu. Yn ein bywydau pob dydd, petai un ohonom yn prynu car a'r gwerthwr yn mynnu ei gadw i rywun arall, fe fyddai yn fater cyfraith. Ond dyna beth sydd yn digwydd gyda thocynnau'r gêmâu, mae'r cwmnïau sydd yn eu noddï yn codi eu prisiau arnom ni eu cwsmerïad ac yn llwyddo i gadw y tocynnau ar eu cyfer fel noddwyr. Efallai y dylai'r

Llywodraeth fod wedi benthg patrwm yr Eisteddfod lle nad yw noddwr yr Eisteddfod ddim ond yn cael tocynnau ar gyfer eu staff fydd yn yr Eisteddfod a neb arall.

A beth am y gwledydd sydd yn mynychu'r gêmâu? Baint ohonynt sydd ar y naill law yn hysbysebu am gymorth mewn angen, angen gweladwy a dygn, ond, ar yr un pryd, yn cadw tîm i gystadlu mewn pethau fel yr Olympics a Chwpan y Byd? Mi wn nad ar fara yn unig y bydd byw na dyn na chenedl ond y mae bywyd pobl yn bwysicach blaenoriaeth na chicio pêl neu redeg ar lwyfan y byd, does bosibl.

Fe fydd pawb yn meddwl mai am fod yn gas gennyf bob camp yw hyn ond y gwir yw fy mod yn eithaf mwynhau ymarfer ym Mhlas-crug a mi rwyf yn edrych ymlaen at y neidio ceffylau a ddaw, crugo cost y gêmâu ydw i a'r ffordd y maent yn mynd i gael ein gwthio arnom ddydd a nos boed gennym ddiddordeb ynddynt ai peidio. Ac yn sicr, mi ydw i yn crugo talu amdanynt!

Ac i'r rhai ohonoch a ddioddefodd gan y llif, gobeithio eich bod yn cael datrysiad sydyn i'ch problemau a gobeithio, er mwyn pawb ohonom, y daw'r glaw yma i ben ac y gwelwn yr haul.

Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion Swyddog Gwaith Plant ac Ieuencid Newydd

Yn dilyn ymadawïad Efan Williams, a fu'n gweithio'n ddiwyd fel Swyddog Gwaith Plant ac Ieuencid y Fenter oddi ar Medi 2010, mae'n bleser gan y Fenter gyhoeddi penodiad Swyddog newydd a ddechreuodd ar ei gwaith ganol Mehefin 2012. Daw Eleri Pierce Jones yn wreiddiol o'r Ffôr yn ymyl Pwllheli, ac mae hi newydd raddio o Brifysgol Aberystwyth mewn Cymraeg ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Yn ôl ei thystiolaeth ei hun, daeth Eleri i adnabod Iesu fel Gwaredwr personol yn ystod ei chyfnod yn Ysgol Glan y Môr Pwllheli a Choleg Meirion Dwyfor, ac wedi iddi orffen yno, treuliodd flwyddyn yn gweithio yng Ngholeg y Bala yn helpu ar gyrsïau plant ac ieuencid ac yn dyfnhau ei ffydd bersonol. Yn ystod ei chyfnod yn y Brifysgol wedyn, bu'n aelod gweithgar o'r Undeb Cristnogol, yn helpu mewn nifer o Glybiau Cristnogol yn Aberystwyth a'r cylch gan gynnwys Clwb Os Mêts yn ogystal â chynorthwyo i drefnu ac arwain y Cwrs Alffa yng nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth. Bu hefyd yn parhau i wirfoddoli ar nifer o

gyrsïau plant ac ieuencid Coleg y Bala. Mae Eleri felly wedi cael tipyn o brofiad o fod ynghlwm â gwaith Cristnogol gyda phlant ac ieuencid, ac wedi profi ei hymrwymiad a'i brwdfrydedd dros waith yr Arglwydd.

Dymunwn yn dda i Eleri wrthi iddi ddechrau ar yr her newydd hon, gan obeithio y bydd eglwysi'r Fenter, yn rhoi pob cefnogaeth a chymorth iddi yn y gwaith.

DALIER SYLW: Cynhelir Oedfa Gomisiynu Eleri yng nghapel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth ar Ddydd Sul, 30ain Medi am 10.00yb. Bydd yr oedfa ar ffurf Oedfa Deuluol gyda lle amlwg i blant ac ieuencid. Mawr obeithir y bydd capeli'r ardal yn hepgor eu hoedfaon y bore Sul hwn ac yn ymuno â'r oedfa ym Methel i ddeisyf bendith Duw ar ei gwaith.



**James
Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

**GWASANAETH
TEIPIO**

GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *



Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

LLANDRE

Ymddeoliad hapus

Ymddeoliad hapus i Marianne Jones Powell a ymddeolodd o'i gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol ddiwedd Mai.

Ras am Fywyd

Llongyfarchiadau merched Llandre a fu'n rhedeg yn y Ras am Fywyd ar ddydd Sul 13 Mai. Mae'r ras yn agored i ferched o bob oed i godi arian at ymchwil cancr.

Merched y Wawr, Llanfihangel Genau'r-glyn

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 19 Mai, ym Methlehem, Llandre.

Croesawodd ein Llywydd, Marian Jenkins, bawb i'r cyfarfod ac anfonwyd ein cofion at Nest Davies sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd. Llongyfarchwyd Nans Morgan am ennill y drydedd wobwr am chwarae golff yng nghystadleuaeth Cymru Merched y Wawr. Cawsom adroddiad ariannol gan y Trysorydd, Mary Thomas a chrynodeb byr a chryno am weithgareddau'r flwyddyn gan Marian. Yn ystod y cyfarfod croesawyd Mrs. Margaret Williams a Mrs. Sue Davies atom i gyfrif y pleidleisiau gogyfer ag ethol is-swyddogion.

Ein Swyddogion am 2012-2013 fydd Llywydd: Mrs. Gwenda James, Tremedd a Mrs. Glenys Evans yn Is-lywydd. Mrs. Linda Jones fydd yr Ysgrifennydd a Mrs. Mair England yn Is-ysgrifennydd. Mary Thomas yn Drysorydd a Mrs. Llinos Dafis yn Is-drysorydd. Mae holl aelodau eraill y Gangen yn aelodau o'r Pwyllgor.

Roedd Mrs. Elina Davies wedi gofalu fod pawb yn cael rhywbeth bach neis i fwyta cyn mynd adre a mawr yw diolch y gangen i Elina am ei pharodrwydd i drefnu a pharatoi ar ein cyfer.

Diolchodd Marian i'w chyd-swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a dymunodd yn dda i'r criw newydd a fydd yn cymryd drosodd ar ôl ein trip i Bontarfynach ar 18 Mehefin.



Pod, (Arwel Roberts) y Stomp feistr a Huw Ceiriog, y buddugol yn Stomp Llandre.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gladys James, Brynlllys, sydd wedi dod yn fam-gu unwaith eto. Ganwyd bachgen bach i Peter a Samantha, Penrhyn-coch.

Chwaraeon Merched y Wawr

Llongyfarchiadau i Nans Morgan, Dolgwail, Lôn Glanfred ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Golff Merched y Wawr yn Y Borth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Alan, Christine a'r teulu, Cae'r Arglwyddes, Lôn Glanfred ar farwolaeth unig frawd Alan, Ron o Aberystwyth, yn ddiweddar.

Marathon Llundain

Llongyfarchiadau i Daniel, Llain Wen, Lôn Glanfred ar lwyddo rhedeg 26 milltir, a chael medal ym Marathon Llundain. Hefyd llongyfarchiadau ar ddathlu pen blwydd arbennig.

Babi Newydd

Croeso i Mirain Elin i Lawr y Glyn, Lôn Glanfred ar y 7fed o Fai, ail ferch i Richard a Lynwen a chwaer fach annwyl i Enid.

Sefydliad y Merched Genau'r-glyn

Dathlwyd dydd Gŵyl Ddewi'r gangen yng Ngwesty'r Railway, Y Borth. Ar ôl cyfarfod byr i drafod materion y Ffederasiwn cafwyd cinio a noson gymdeithasol.

Er gwaetha noson oer a wyntog, daeth nifer dda i gyfarfod mis Ebrill. Wedi trafod materion busnes cafwyd cyflwyniad sut i wneud ffelt gan Ruth Packham. Mae Ruth yn ddylunydd/artist talentog lleol, sydd yn prynu gwlân o wahanol wledydd yn dibynnu ar ba ffibr sydd ei angen. Esboniodd am ddau fath o wneud ffelt - ffeltio gwlyb i brosiectau mawr a ffeltio sych/nodwydd. Mwynhaodd yr aelodau wneud amrywiaeth o deganau a thlysau ffelt.

Buom yn ffodus ym mis Mai i gael ymweliad gan Deborah Smith i ddangos amrywiaeth o'i brodwaith. Yn gweithio mewn edau gain, yn cynnwys aur, arian a thlysau, dangosodd esiamplau o waith croes, a "pulled work" a "hard hanger" wedi eu gwneud mewn i fagiâu prydfferth. Mae Deborah yn cael ysbrydoliaeth o'r byd natur o'i hamgylch, hefyd o frodwaith Elisabethaidd a Tuduraidd wedi selio ar gynlluniau o'r Amgueddfa V & A. Yna dangosodd fflychau hardd, ond y canolbwynt oedd fframyn llun hyfryd o sidan yn dangos blodau gwyllt



ac adar. Mae pob cynllun gan Deborah yn cynnwys gwenynen, hwn yw'r enw Hebreaidd am Deborah. Ar ôl ei hymweliad ysbrydolwyd yr aelodau i ail-ymgymryd â'u diddordebau.

Hefyd ym mis Mai trefnwyd taith gerdded ar hyd "Nanny Goats Lane" ger Rhydyfelin yn dilyn yr afon Ystwyth at y môr. Ar ddiwedd y noson cafwyd swper yng Ngwesty Llety Parc.

Darganfod medal

Mae medal o'r Rhyfel Byd Cyntaf a ddiflanodd 30 mlynedd nôl wedi cael ei dychwelyd i wŷr y milwr - ar ôl iddo sylwi arni ar werth ar eBay am 99c! Gobaith Martin Robson-Riley oedd dod o hyd i'r fedal oedd yn rhan mor bwysig o hanes ei deulu a'r unig gysylltiad rhyngddo ef a'i dad-cu nad oedd erioed wedi ei gyfarfod. Ni allai gredu ei lwc pan welodd yfedal a enillodd ei dad-cu ym 1910 ar werth ar wefan y safle ocsiwn.

Diffannodd y fedal ac un arall berthynai i Preifat Henry Riley o'r cartref teuluol yn Bournbrook, Birmingham ond cyrhaeddodd y fedal Victory ddeliwr yng Nghernyw roddodd hi ar werth. Symudodd Martin a'i wraig i Geredigion bymtheng mlynedd yn ôl - mae ar staff y Llyfrgell Genedlaethol ac yn rhugl ei Gymraeg.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn : 01970 828693 neu e-bost : mairllo@hotmail.co.uk.

Llwybr Llên Llandre



Llun: Iestyn Hughes

Yr Arglwydd Elystan-Morgan, Gwynfryn Evans a Wynne Melville Jones yn edrych ar Yr Archdderwydd Jim Parc Nest yn agor y Llwybr Llên.

Y Llwybr Llên

Mae 'na lwybr rhwng y coed yng Ngenau'r-glyn;
O borth hen fynwent Llanfihangel draw
Am odre Castell Gwallter ar y bryn,
Mae beirdd yn sisial siarad ar bob llaw.
Eginodd sglein paneli o bridd y plwy,
Madarchu'n swil dros nos o fan i fan
Gan fagu gwraidd, ac yno maen nhw mwy,
Yn fythwyrdd fel yr yw sy'n hŷn na'r llan.
Lle bu'r gwledda mawr a'r clera yng Nglanfrêd
A lle daeth llefnyn o Frogynin gynt ar faeth,
Mae'r ysfa honno i greu o hyd ar led,
Yn berwi fel llanw Wallog dros y traeth.
Hyd lwybr Llanfihangel aeaf a haf
Bydd lleisiau ddoe a heddiw'n sgwrsio'n braf.

Huw Meirion Edwards

Dathlu

Ar yr 17eg o Fai eleni agorwyd Llwybr Llên yng
nghoedwig Llanfihangel Genau'r Glyn i ddathlu
traddodiad barddol y plwy hyd heddiw.

Treiglai'r glêr trwy giliau'r Glyn
Un waith, troi'n ôl i nythu'n
Hedd y llan, haeddu eu lle
Ag arian bath eu geirie.

Lleibio'r gwlith mae llwybrau'r glêr
O hyd, mae blagur hyder
Yn glasu'r allt lle buont,
Yr allt wylt o wâr lle dônt
Eto i'n mysg fel ton, a Mai
Yn deilio fel y dylai.

Ac yn eu clyw'n fyw fe fydd
Caneuon cywion newydd.

Huw Meirion Edwards



Rhai o'r cerddwyr a fu ar y daith gerdded i ddathlu agoriad swyddogol Y Llwybr Llên ar ddydd Sadwrn 19 Mai dan arweiniad Mary a Rees Thomas.

Gwasanaeth CYFIEITHU

Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454

linda.griffiths01@btinternet.com



MARK HUGHES

CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTRDIG

Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrrn a chroen caled. Verruca
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau

**GWASANAETH YMWELD
Â'R CARTREF**
01970 615938

SWYDDFA'R POST BOW STREET

NWYDDAU

MELYSION

CYLCHGRONAU

CARDIAU CYFARCH

PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN


GWASANAETH TEIPIO

Cysylltwch â

Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch

Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebst: glenwen.morgans@btopenworld.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS



Am bob math o waith
garddio ffoniwch
(01970) 820924

Dilyn y Fflam

Fel rhan o daith y fflam Olympaidd fe ymwelodd â'r Llyfrgell Genedlaethol fore Llun 28 Mai ar ei ffordd rhwng y dref a Bow Street. I ddathlu'r achlysur hanesyddol yma fe fu i'r Llyfrgell groesawu'r fflam gyda derbyniad o 6 torch o gêmiau Olympaidd y gorffennol. Mae'r fflaglau yn cynnwys rhai München 1972, Seoul 1988, Athen 1996, - fflagl wnaethpwyd gan wlad Groeg i goffâu camlwyddiant y gêmiau modern ac i fynegi eu siom o beidio a chael eu gwobrwyo â'r gêmiau hyn (dechreuodd y gêmiau modern yn Athen yn 1896) Atlanta 1996, Athen 2004 a Llundain 1948 (y tro diwetha i'r gêmiau ymweld â Llundain). Cafodd dau o drigolion ardal Aberystwyth – Gareth Farrow ac Abishika Kasipillai y fraind o gario dwy o'r fflaglau, ynghyd â Jayne Day a Stephen Jones sy'n aelodau o staff y Llyfrgell, ac Andy Marshall a Hannah Tyson myfyrwyr Coleg Ceredigion. Gwobrwy-yd y Coleg â Marc Ysbrydoli'r Olympiad Diwylliannol am ei ffilm



(o'r chwith i'r dde) : Jayne Day, Stephen Jones, Hannah Tyson, Andrew Green, Gareth Farrow, Abishika Kasipillai, Andy Marshall

fer, Precious Life. Cynhyrchwyd y ffilm gan y myfyrwyr gan ddefnyddio ffilmiau yn Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru sy'n rhan o'r Llyfrgell. Mae'r canlynol a chysylltiad ag ardal y *Tincer*:

Er mai dim ond 19 mlwydd oed yw Gareth Farrow o Goginan, mae o wedi bod yn hyfforddwr yn ei glwb canwio lleol ers 10 mlynedd ac wedi bod yn ysbrydoliaeth mawr i eraill yn sgîl ei berfformiad a'i frwdfrydedd wrth gynrychioli y DU a Chymru.

Mae Andy Marshall, Capel Bangor, wedi ymddangos ddwywaith yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol yn ystod dangosiad cyhoeddus Precious Life – prosiect ar y cyd rhwng Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru a Coleg Ceredigion.

Mae Jayne Day, Abermagwr, yn Gydlynnydd Gwasanaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn gymar i Paul Davies, (Y Lôn Groes gynt) ac yn fam i ddau fab bychan, Siôn a Tomos.

Mae Stephen Jones, sy'n byw ym Mhenrhyn-coch, yn gydlynnydd Ail-leoli Prosiect Archif ITV Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn gyn chwaraewr pêl-droed (chwaraeodd i Benrhyn-coch o 1989/90 hyd at 2000/01) ac mae ganddo ef a Nerys ei wraig ddau o blant - Lowri a Steffan



Derfel Reynolds yn Llan-non



Clint Middleton yn Aberaeron



Jacqueline Minchin yn Llannarth



Danielle Pryce yn Nhal-y-bont



Anne Rees-Pritchard yn Bow Street

YSGOL CRAIG YR WYLFA

Ymweliadau

Bu plant yr ysgol yn 'dilyn y fflam' ar fore Mai 24ain wrth i'r Ffagl Olympaidd teithio drwy Taliesin. Yn dilyn bwrllwm yr orymdaith bu'r plant yn mwynhau picnic yng nghwmni ei ffrindiau yn Ysgol Llangynfelyn.

Sam a Courtney yn mwynhau dal y Ffagl Olympaidd

Diolch yn fawr i Terry Brown o 'Gynllun Gwên yr NHS' am ymweld â'r ysgol a rhannu negeseuon pwysig ynglŷn â gofal dannedd.

Aeth plant yr ysgol i gynnal cyngerdd i drigolion Cymdeithas yr Henoed ar brynghawn 31ain o Fai yn Neuadd

Gymunedol y Borth. Bu'r plant yn canu ac yn dawnsio ac fe wnaethant fwynhau te parti ar y diwedd. Diolch i'r gymdeithas am y croeso ac am baratoi lluniaeth wedi'r gyngerdd.

Cystadlu

Llongyfarchiadau i dîm criced yr ysgol a wnaeth gystadlu yn nhwrnamaint criced Cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Cafwyd hwyl ar y cystadlu, a daeth y cyfan i ben yn amserol iawn cyn y glaw! Cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol ar brynghawn Mehefin 19eg. Llongyfarchiadau i bawb yn yr ysgol

a'r Cylch Meithrin am gystadlu a hynny mewn naws gystadleuol hwyliog. 'Dyfi' aeth a hi ar ddiwedd y cystadlu er nid oedd 'Leri' ymhell y tu ôl iddynt! Llongyfarchiadau hefyd i Sam Trubshaw (Capten Dyfi) a Lily Price (Capten Leri) am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau i'w timoedd.

Ymwelwyr

Diolch yn fawr i Ray Horton o Gynllun Beicio Diogel Ceredigion am hyfforddi disgyblion blwyddyn 5 a 6 mewn beicio'n ddiogel ar y ffyrdd. Bu pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus yn y prawf terfynol. Da iawn blant!



GWASANAETH TEIPIO

CYSYLLTWCH Â MAIR ENGLAND

PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS

01970 828693

mairllo@hotmail.com

R.J. Edwards

Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr
gwair a gwellt

Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch,
slag a Fibrophos

Lori, turiwr a malwr
i'w llogi

Cyflenwi cerig mân

01970 820149
07980 687475

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIAINT



AR AGUR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU
IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON

FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

ytincer@
googlemail.
com

YSGOL PEN-LLWYN

Pentywyn

Fe fwynhaodd plant dosbarth 2 eu gwyliau ym Mhentywyn. Er i'r tywydd fod yn gyfnewidiol fe gafwyd wythnos yn llawn antur a hwyl. Fe fu'r plant wrthi'n datblygu sgiliau mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous. Dyma brofiad cyntaf nifer ohonynt o aros i ffwrdd o gartref a'u rhieni a braf oedd nad oedd dim ar ôl yn yr ystafelloedd wedi i'r bagiau gael eu pacio! Da oedd gweld y plant yn gwneud ffrindiau newydd o'r ysgolion eraill o Benarth a'r ardal gyfagos i Bentywyn. Cyn dychwelyd i Geredigion fe gafwyd cyfle i ymweld â'r amgueddfa cyflymder ym Mhentywyn i ddysgu am hanes Babs a Parry Thomas yn rasio ar y traeth. Mae lluniau'r wythnos i'w gweld ar wefan yr ysgol <http://www.ysgolpenllwyn.com/>

Dilyn y Fflam

'Cofiadwy,' dyma ddisgrifiad un aelod o'r staff o'r bore y gadawodd y fflam Olympaidd Aberystwyth ar daith i'r Gogledd trwy Bow St, Tal-y-bont a Thaliesin. Roedd y cynllun yn un syml; mynd ar fws i Bow St mewn pryd i chwilio llecyn delfrydol i alluogi'r plant i weld y fflam cyn dychwelyd i'r ysgol i barhau â'n gwaith ar y Gêmau Olympaidd. Mi oedd pawb yn hapus i gyrraedd mewn pryd gan symud y plant i ochr yr heol. Cyn iddyn nhw gael cyfle i godi'u lleisiau fe welwyd ambell i oedolyn yn cerdded tuag atom. Cyn hir fe ddeallom fod y fflam yn gynnar ac wedi mynd heibio rhyw ddwy funud ynghynt!

Fe allem fod wedi troi 'nôl yn syth ond mi oeddem i gyd yn benderfynol o weld y fflam felly yn ôl a ni ar y bws gan ofyn yn daer i'r gyrrwr i ddilyn y fflam i'r Gogledd gan obeithio gael cyfle i'w weld yn Nhal-y-bont. Roedd yna dipyn o gyffro ar y bws erbyn hyn gan fod yna geir cefnogaeth y fflam o'n hamgylch a bws y BBC hefyd. Rhaid oedd gadael y bws ar y ffordd i mewn i Dal-y-bont i geisio darganfod unrhyw 'intelligence' lleol. Nid oedd y newyddion yn bositif, yn ôl un gŵr mewn sbectol haul ddu a cyfrifiadur ar ei lin o fewn car 'Olympaidd' ni fyddai'n bosib iddynt weld y fflam felly nid oedd llawer o obaith i fws!

Roedd y daith nawr yn sialens i'w brofi'n anghywir ac ymlaen â ni. Doedd dim amser i stopio yn Nhaliesin wrth i ni chwifio at aelodau staff a phlant ysgolion Llancynfelin a'r Borth a oedd wedi gweld y fflam erbyn hynny ac yn edrych ymlaen at rhyw ddanteithion bach yn yr ysgol. Yn y byd technolegol sydd ohoni roedd yn bosib rhoi gwybod i'r rhieni o'r hyn oedd yn digwydd ar Trydar ond annodd oedd cael llawer o

wybodaeth o'r we oherwydd diffyg 'signal' dibynadwy. Roedd yna berygl gwirioneddol y byddem yn dilyn y fflam yr holl ffordd i Fangor! Mi fyddai'n aros ychydig yn hrrach ym Machynlleth oedd y gred ar y bws ac roedd y gobeithion yn uchel wrth i ni ddynesu at y dref. Newyddion trist, serch hynny, oedd gan heddwad i ni. Roedd wedi clywed fod y fflam eisioes wedi gadael y dref ac mi fyddai yn Nolgellau o fewn ugain munud. Does neb yn hoffi colli ond roedd hon yn ergyd drom a rhaid oedd argymhell i'r gyrrwr y dylai troi'r bws yn ôl tuag at y De gan adael i'r fflam ymbellhau ar ei thaith i Fangor.

Taith dawel a gawsom yn ôl i'r ysgol a phob gobaith wedi diflannu. Braff oedd clywed rhai o'r plant lleiaf yn dweud eu bod wedi gweld y fflam wrth iddynt chwarae ar iard yr ysgol! Nid dyma ddiwedd y stori serch hynny. Er na welwyd y fflam fe gafwyd cyfle i gyfarfod Anne Rees Pritchard a Jacqueline Minchin gyda'r fflag a gariodd y ddwy yn yr ysgol. Roedd cwestiynau y plant iddynt yn rhai ardderchog a braff oedd dal y fflag a ddiflannodd o'n blaenau ychydig o ddiwrnodau ynghynt. Fe y gwelwch o'r llun fe gafwyd ymwelydd pwysig arall i'r ysgol sef Wenlock, mascot y Gêmau. Da oedd croesawu plant yr Ysgol Feithrin a plant ieuangaf Ysgol Penrhyn-coch i fwynhau ei gwmni. Mae'r gêmau Olympaidd wedi bod yn gofiadwy i ni'n barod – edrychwn ymlaen yn awr i weld y fflam ynghyn yn y Stadiwm ym mis Gorffennaf. Oes na le ar unrhyw fws yn mynd i Lundain tybed?

Guto Nyth Bran

Braff oedd cael ymweld â Theatr y Werin i fwynhau perfformiad Arad Goch o Guto Nyth Bran yn ddiweddar.

Tim Criced

Fe gafwyd gêm gystadleuol yn erbyn Ysgol Penrhyn-coch. Roedd gan Benrhyn-coch fatiwr o fri a sgoriodd nifer uchel o rediadau yn y ddwy belawd olaf i ennill y gêm. Gêm agos a gaed cyn hynny gyda phawb yn rhoi perfformiadau ardderchog.



Rhai o blant dosbarth 1 yn edmygu'r fflag a gariwyd gan Jacqueline.



Fe fu raid i Anne ateb amrywiaeth o gwestiynau da.



Wenlock yn ceisio dyfalu pa chwaraeon sy'n cael ei gyfleu gan gyfansoddiad y plant.



Steffan yn paratoi i fowlio yn erbyn Penrhyn-coch.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

M THOMAS

Plymwr Lleol

Penrhyn-coch

Gosod gwres canolog

Ystafelloedd ymolchi

Cawodydd

Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy

Prisiau rhesymol

07968 728470

01970 820375

ANIFEILIAID TEW

eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol

Cysylltwch â Tegwyn Lewis

Ffôn (01970) 880627

YSGOL RHYDYPENNAU

Eisteddfod yr Urdd

Yn hytrach na’ ymlacio a mwynhau gwyliau hanner tymor bu nifer o blant ac athrawon yr ysgol yn mynychu Eisteddfod yr Urdd yn Eryri. Roedd Parti Cerdd Dant yr ysgol yn perfformio ar y bore Llun gyda’r bwriad o gyrraedd llwyfan y Pafiliwn yn y p’nawn. Perfformiodd y parti yn wych ac er fod y feirniadaeth yn galonogol tu hwnt, aflwyddiannus oedd y cynnig i gyrraedd y llwyfan. Hen dro!

Hoffai’r ysgol ddiolch i’r plant am eu gwaith diwyd, y rhieni am eu cefnogaeth a chan’ diolch hefyd i Mrs Helen Medi Williams a Mrs Eleri Roberts am eu hyfforddiant arbenigol dros yr wythnosau diwethaf.

Ymweliadau a digwyddiadau Croesawu’r Fflam Olympaidd

O’r diwedd, fe gyrhaeddodd y foment fawr; daeth Y Fflam Olympaidd i Geredigion. Toc wedi naw o’r gloch ar yr 28ain o Fai, heidiodd nifer o drigolion y pentref a phlant yr ysgol i weld Y Tywysydd a’r Fflam yn gorymdeithio o flaen safle’r ysgol.

Trannoeth, gwahoddwyd Y Tywysydd i’n gwasanaeth er mwyn i’r plant gael y cyfle i holi cwestiynau iddo, dysgu rhagor am yr orymdaith a phrofi’r wefr o gydio yn y Torch Olympaidd.

Mynd am dro i’r coed

Cafodd plant Y Meithrin a’r Derbyn ymweliad pleserus â Choedwig Gogerddan yn ddiweddar. Aeth hanner cant o blant eiddgar ar y bws yn gynnar yn y bore a phrofi byd natur yr ardal ar ei orau. Yn ystod yr ymweliad buont yn arsylwi ar y bywyd gwyllt a chymharu’r holl flodau a phlanhigion sy’n tyfu yno.



Y Parti Cerdd Dant

Diwrnod Ffrengig

Yn ystod mis Mai, trefnwyd achlysur arbennig i blant blwyddyn 3 a 4. Fel rhan o’u gwaith thema, cafodd y plant, yn llythrennol, flas ar Ffrainc. Bu’r plant yn y neuadd yn profi a blasu amryw o fwydydd Ffrengig.

Ecoleg

Ar y 14eg o Fehefin fe aeth blwyddyn 3 a 4 a blwyddyn 4 a 5 i Ynys-hir ac Ynys-las ar ymweliad addysgol. Tra’n Ynys-las bu’r plant yn cwblhau tasgau a gweithgareddau difyr yn y twyni gan ddysgu am yr amgylchedd. Yn Ynys-hir bu’r plant yn defnyddio rhwydi i ymchwilio’r pyllau a’r porfeydd gerllaw am drychfilod, llyffantod a physgod bach gan ddysgu am gadwyni bwyd. Trefnwyd yr ymweliad yn unol â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a’r RSPB.

Lluniau

Ar y 24ain o Fai fe ddaeth ffotograffydd o gwmni Tempest i’r ysgol. Mae lluniau’r dosbarthiadau, y grwpiau amrywiol a berfformiodd yn ystod y flwyddyn a thîmau chwaraeon yr ysgol ar gael i’w harchebu nawr.

Garddwest

Mi fydd ein Garddwest eleni yn cael ei chynnal ar Ddydd Gwener cyntaf Gorffennaf yn hytrach nag ar benwythnos olaf Mehefin. Mi fydd y noson yn dechrau am 5 yr hwyr.

Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Mehefin:-

- 1) Eileen Williams, Rhandir Isaf. Llangwryfon - £25
- 2) Cêt Morgan, Glanfred - £15
- 3) Shân Thomas Jones, Caergywydd- £10

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Gweithgareddau Ynys-las



Y Fflam Olympaidd yn cyrraedd.



Rhai o’r plant yn mwynhau Diwrnod Ffrengig.

SIOP A SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a’r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 8283 12

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH

AROLYCON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A’CH
GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyffwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

YSGOL PENRHYN-COCH

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Ensemble canu'r ysgol ar eu perfformiad yn Eisteddfod y Urdd yng Nglynllifon. Er gwaethaf y tagfeydd traffig difrifol ar fore'r gystadleuaeth a rhai yn gorfod cerdded y ddwy filltir olaf i'r cae, cafwyd perfformiad da iawn ganddynt. Yn anffodus nid oeddynt yn y tri a ddewiswyd i berfformio ar y llwyfan. Er hynny, da iawn chi am eich gwaith arbennig. Diolch enfawr i'r rhieni am eich cefnogaeth.

Côr yr Ysgol

Bu'r mis diwethaf yn amser prysur iawn i aelodau côr yr ysgol. Fel rhan o noson i godi arian i elusen Ffagl Gobaith, gwahoddwyd y côr i ganu ar lwyfan y Neuadd Fawr. Yn ystod y noson cafwyd eitemau gan unawdwyr megis Cyfarwyddwr Musicfest, David Campbell, ynghyd â chôr Ysgol Llanilar. Canwyd eitemau yn cynnwys Castell Cidwm a fersiwn Gymraeg o'r gân Haleliwia gan Brigyn. Cafwyd ymateb arbennig gan y gynulleidfa.

Ar y 1af o Fehefin, agorodd siop newydd yn Aberystwyth, sef B&Q. Braf oedd cael gwahoddiad i ganu yn yr agoriad swyddogol. Bu'r disgyblion wrthi yn canu yn y prif fynedfa wrth i'r siopwyr gyrraedd am yr awr gyntaf. Cafwyd llawer o ganmol gan y siopwyr. Diolch i B&Q am y gwahoddiad ac am y croeso arbennig a gafwyd ganddynt. Bu'r disgyblion yn ffodus hefyd i gael eu tywys o amgylch y siop ynghyd â chael ychydig o fwyd a diod. Profiad arbennig i bawb.

Treuliodd y côr ddiwrnod arbennig arall cyn hanner tymor. Y tro hwn, ni fu rhaid symud o'r ysgol! Treuliodd yr aelodau y diwrnod yn recordio Cryno Ddisg. Bydd y cryno ddisg yn cynnwys tua 10-12 o ganeuon amrywiol yn cynnwys yr Ensemble, parti Deulais a'r côr llawn. Bydd y Cryno Ddisg ar werth yn fuan iawn o'r ysgol.

Y Fflam Olympaidd

Ar fore Llun braf cyn hanner tymor, teithiodd mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol ar fws i Bow Street. Pwrpas y daith oedd i wylïo'r

Fflam Olympaidd ar ei thaith tua'r Gogledd o Aberystwyth. Ar ôl gosod ein hunain tu allan i dafarn y Welsh Black, ni fu rhaid aros yn hir i weld yr holl gerbydau yn teithio i fyny. Cafodd y disgyblion lawer o fwynhad yn gwylïo'r bysus, lorïau a'r cerbydau di ddiwedd yn pasio. Yna o'r diwedd, daeth y fflam ei hun. Braf oedd gweld y foment hanesyddol hyn a chyffro'r holl digwyddiad.

Un o'r rhai o fu'n cario'r fflam oedd Jaqueline Minchin o Bow Street. Bu Jaqueline yn cario'r fflam yn Llanarth ar y dydd Sul. Ymwelodd Jaqueline â'r ysgol ynghyd â Lynwen Jenkins i ddangos y fflag a ddefnyddiodd i gario'r fflam. Treuliodd yr amser yn sôn am y profiad ac yn ateb cwestiynau y disgyblion. Diolch yn fawr iddi am ddod atom.

Y Llyfrgell Genedlaethol

Fel rhan o waith blwyddyn 6, teithiodd y disgyblion i'r Llyfrgell Genedlaethol i weld arddangosfa "Dilyn y Fflam." Yn ystod yr ymweliad, cafwyd cyfle i weld yr arddangosfa oedd yn olrhain hanes y gêmiau Olympaidd gwreiddiol ynghyd â'r rhai modern a gychwynwyd gan Pierre DeCoubertin ym1896. Gwelwyd clipiau fideo a lluniau amrywiol o rai o'r Cymry sydd wedi cymryd rhan yn y Gêmiau Olympaidd a'r Gêmiau Paralympaidd. O fewn yr arddangosfa, roedd arteffactau arbennig gan gynnwys Cadair Olwyn rasio Tanni Grey-Thompson's, Fflaglau Fflamau Olympaidd ynghyd â medalau a enillwyd. Diolch i Rhodri ac Owen am y croeso a gafwyd ac am ein tywys o amgylch yr arddangosfa.

Ffarwelio

Ffarwelwyd â Mrs Evans ar ddiwedd yr hanner tymor. Bydd i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Pob dymuniad da iddi ac i Tom. Cyflwynwyd blodau a chardiau amrywiol iddi. Rydym yn croesawu Mrs Anwen Williams i'r ysgol i ddysgu dosbarth blwyddyn 1 a 2. Llongyfarchiadau i Miss Cory a Mr Roberts fydd yn rhannu dyletswyddau'r Diprwy Bennaeth dros y cyfnod hyn.



Côr yr ysgol wrthi yn canu yn agoriad B&Q yn ddiweddar



Cyn ddisgybl yr ysgol, Danielle Pryce, yn ymweld â'r ysgol gyda'r fflag Olympaidd.



Yr Ensemble yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch yn gynharach eleni.



Côr yr ysgol wrthi yn recordio ar gyfer y Cryno Ddisg a gaiff ei ryddhau yn fuan iawn.

Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu Cyngor “newydd” Tirymynach am y tro cyntaf nos Iau 24 Mai yn neuadd Rhydypennau. Gan fod hon yn noson y Cyfarfod Blyneddol etholwyd y Gynghorwraig Heulwen Morgan yn gadeirydd am y flwyddyn gyfredol a hi a gyflwynodd yr adroddiad am y flwyddyn flaenorol. Yn ei hadroddiad dywedodd bod helyntion gyda'r system garthffosiaeth yn parhau ac yn dal i olygu nad oes ceisiadau am godi tai newydd yn cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd os nad oes trefniant arbennig ar gyfer delio efo dŵr wast. Mae'r sefyllfa yn un anfodddhaol iawn ac mae'r Cyngor yn pwysu'n daer ar yr awdurdodau am weithredu brys ar y mater. Wrth edrych i'r dyfodol dywedodd yr hoffai ein gweld yn mynd ati o ddifri i fanteisio am gymorth posibl gan y Cyngor Sir i wella golwg eitemau fel meinciau a safleoedd bysiau ac ati.

Etholwyd y Cyng. Dewi Evans yn is-gadeirydd. Yn gynrychiolwyr ar wahanol gyrff yn yr ardal etholwyd fel a ganlyn: Maes Chwarae Rhydypennau - y Cyng. Vernon Jones, Neuadd Rhydypennau - y Cyng. Robert Pugh, Llywodraethwyr Ysgol Rhydypennau - y Cyng. Gwynniant Phillips, Cartref Tregerddan - y Cyng. Sian Jones, Pwyllgor yr Henoed - y Cyng. Heulwen Morgan, PACT - y Cyng. Heulwen Morgan (rhan uchaf), y Cyng. Meinir Lowry (rhan ganol), y Cyng. Dewi Evans (rhan isaf).

Ni ddaeth un aelod o'r cyhoedd na threthdalwr i'r cyfarfod.

Aethpwyd ymlaen i'r cyfarfod misol arferol. Adroddwyd bod gwaith uwchraddio rhan o ystâd Maesafallen yn mynd yn ei flaen fel y disgwyliid. Dywedwyd nad oedd cymaint o garthion cŵn i'w weld yn yr ardal ag y bu, yn enwedig ar y maes chwarae. Byddai rhagor o finiau yn y gymdogaeth efallai yn lleihau eto ar y broblem. Mae'r llygod mawr ar waelod Maes Ceiro wedi mynd ac mae heddwch yn teyrnasu eto yn yr ystâd. Edrychir ymlaen at weld Taith y Fflam Olympaidd yn mynd trwy Bow Street fore Llun 28 Mai.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd

Sir, y Cyng. Paul Hinge ar ei ethol i gynrychioli'r etholaeth a dymunwyd yn dda iddo yn ystod ei dymor a diolchwyd iddo am ei wasanaeth dros y cyfnod blaenorol. Y mae eisoes wedi ei ethol yn gadeirydd ar nifer o bwyllgorau ar y Cyngor Sir.

Llongyfarchodd Mr Hinge ninnau y Cynghorwyr ar ein hethol yn ddiwrthwynebiad am y pedair blynedd nesaf. Yn ei adroddiad dywedodd ei fod yn ymladd i gael ateb i'r broblem goryrru o gwmpas croesfan Llangorwen gan gyflwyno nifer o awgrymiadau megis cylchdro neu newid y blaenoriaethau. Bu mynediad i Gartref Tregerddan yn fedlam yn ddiweddar gyda'r sgips wedi eu gosod yno, ac mae nifer o gyfarfodydd ar lefel uchel wedi eu cynnal yn ddiweddar, a gobeithir ar ddiwedd y dydd cael mynediad newydd - os bydd arian i'w gael. Bu hefyd nifer o gyfarfodydd ynglŷn â phroblem y garthffosiaeth a gellir tybied fod pethau'n symud ymlaen yn araf. Anogodd ni i wneud cais am grantiau i gael cyfarpar i'r plant yng nghae chwarae Bryncastell.

Cynllunio. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w gwneud ar gais i osod carafan static yn Rhydhir Isaf dros dro tra mae annedd newydd yn cael ei godi. Sut bynnag nid yw Rhydhir Isaf yn Nhirimynach bellach!

Materion Ariannol. Adroddodd y Clerc bod ein praesept am 2012-13 wedi dod i law, sef £15,000. Yn unol â'n haddewid, penderfynwyd cyfrannu £100 tuag at Gymdeithas Aredig Ceredigion. (Datganodd y Cyng Dewi Evans ei ddiddordeb ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth).

Cwynion a ddaeth i sylw'r Cyngor. Tyllau ar y ffordd rhwng Nantsiriol a Llangorwen, gordyfiant 5 Garreg Wen, Bryncastell yn rhwystr i gerddwyr ar y llwybr troed. Cwyn o'r Lôn Groes bod busnes trafod beiciau modur yn Derlwyn gyda refio cyson yn enwedig dros y Sul yn amharu ar fwynderau y cymdogion. Edrychir i mewn i'r cwynion hyn drwy'r sianelu priodol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 28 Mehefin.

Gymanfa Ganu Undebol Gogledd Ceredigion

Cynhaliwyd y Gymanfa ar ddydd Sul 13eg o Fai. Cyfarfod y plant oedd yn y bore a chroesawyd ni yn gynnes iawn gan y Parchg Richard Lewis. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Ysgol Sul Bethel Tal-y-Bont ar y thema Y Brenin yna cyflwynwyd pump o emynau'r plant gan yr Ysgolion Sul canlynol - Capel y Garn a Noddfa, Bow Street; Seion, Aberystwyth; Morfa Aberystwyth; Horeb, Penrhyn-coch, Capel Seion a Bethel, Aberystwyth. Mr Alan Wynne Jones oedd yr Arweinydd a wir roedd yn canu yn wych. Cafwyd

sgwrs ddifrif iawn i'r plant gan Mari Rhian Owen o Gwmni Arad Goch, Aberystwyth. Rwy'n siwr y bydd pawb yn cofio ei neges bwysig ini. Ar ôl y cyfarfod cafwyd lluniaeth flasus iawn yn Neuadd Taly-Bont wedi ei baratoi gan wragedd Bethel. Yn yr hwyr Dr Rhidian Griffiths oedd yr Arweinydd. Dechreuwyd yr oedfa gan y Parchg Judith Morris a chafwyd gair pwrpasol iawn gan y Parchg Richard Lewis. Cafwyd noson wych a chanu bendigedig. y Parchg Andrew Lenny roddodd y Fendith ar y diwedd.





Diolch yn fawr i bawb fu'n lliwio llun y plentyn yn cario'r fflam Olympaidd y mis diwetha. Faint ohonoch chi a welodd yr orymdaith yn dod trwy Bow Street? Roedd y tywydd yn heulog a phawb yn amlwg yn mwynhau'r sioe, gan weiddi a chwifio baneri. Mae'r fflam ar ei thaith am rai wythnosau eto, cyn cyrraedd Llundain ddiwedd mis nesaf. Dyma enwau mis Mai: Seren Pugh, Bow Street; Jude Coleridge, Y Borth; Alys Griffiths, Bow Street; Nia Lewis, Llangwryfon; Elen Mary, Bow Street; Megan Lewis, Capel Bangor; Rhys Wyn James, Penrhyn-coch; Lily-May Welsby, Penparcau; Kayla Allsopp, Penrhyn-coch; Elfie Everard-Walker, Y Borth; Nel Davies, Caernarfon; Fflur lewis, Llangorwen.

Roedd yn dipyn o gamp i ddewis enillydd, ond ti, Megan, sy'n ennill y tro hwn. Hoffais y dillad lliwgar a'r fflam lachar yn dy lun. Llongyfarchiadau i ti, a daliwch ati, bawb!

Un o'r rhaglenni rwyf wedi mwynhau ei gwyllo ar y teledu'n ddiweddar yw Springwatch, a gweld gweilch y môr a'u cywion yn eu nyth tal yw'r rhan mwyaf diddorol. Falle fod rhai ohonoch chi wedi bod i'w gweld ar lan afon Dyfi – os ewch chi ar y trê'n o'r Borth i Fachynlleth, mae modd gweld y nyth yn blaen! Mae'r gwalch yn hoffi nythu ar lan afon, môr neu lyn, gan ddewis




Megan Lewis

adeiladu ei nyth ar frigau uchaf hen goeden, gan ddychwelyd yno flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gan y gwalch smotiau brown ar ei fynwes, a marciau brown tywyll ar ei adenydd. Pysgod yw prif fwyd y gweilch, ac mae eu pigau a'u crafangau miniog yn berffaith ar gyfer cipio pysgod o'r tonnau mewn chwinciad chwannen! Wyddoch chi eu bod nhw'n hedfan am 8 milltir a mwy er mwyn hela bwyd i'r cywion llwglyd, ac ar ôl iddyn nhw ddod o hyd i gymar, mae'r pâ'r yn aros gyda'i gilydd am weddill eu bywyd. Rhyfedd o fyd!

Y mis hwn, beth am liwio llun gwalch y môr? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Medi 1af. Mwynhewch eich gwyliau haf, a chofiwch fwynhau'r bywyd gwyllt sydd o'n cwmplas yn ardal y Tincer!

TASG Y TINCER



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed

Rhif ffôn

CTE

C. TREFOR EVANS

TREFNWR ANGLADDAU

+

"PLAS BRONGENAU"

LLANDRE

ABERYSTWYTH

Ffôn 820013

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.

Triniaeth ar ewinedd a chyrn

Llawdriniaeth ar gasewinedd

Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig

Gwadnau ac asesiad biomecanyddol

TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL

Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar 01970 617269 am apwyntiad

FFENESTRI IMEJ

FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL

Sefydledig dros 30 mlynedd

Edrychwch am y Tŷ Twt

01970 880330

Marilyn a Ifor Jones

Cofrestrwyd gyda

FENSA

inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion

13 Stryd y Bont

Aberystwyth

01970 626200

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

Rhif 351 | MEHEFIN 2012